Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>23 MAWRTH 2020<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>23 MARCH 2020<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiadau o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 17 Chwefror 2020
- 2 Mawrth 2020 (Cyllideb)

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 19 - 30)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 3 2019/20** (Tudalennau 31 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

**6** **DATBLYGU DARPARIAETH HAMDDEN AR GYFER CENEDLAETHAU'R DYFODOL** (Tudalennau 43 - 60)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Dros Dro.

**7** **PROTOCOL SIARAD CYHOEDDUS MEWN PWYLLGORAU SGRIWTINI** (Tudalennau 61 - 72)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**8** **ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

**9** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 73 - 76)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol –

"O dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall

olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

**10** **GORCHYMYN PRYNIANT GORFODOL AR GYFER CLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASOL BIWMARES** (Tudalennau 77 - 108)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror, 2020

| | |
|---|---|
| **PRESENOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer eitem 5)<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer Eitem 4))<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)<br>Rheolwr Tîm Rhent, Incwm a Chynhwysiant Ariannol (ar gyfer eitem 7)<br>Rheolwr Polisi a Strategaeth (CWO) (ar gyfer eitem 5)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd R.G.Parry, OBE, FRAgS |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr G.O Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio), Dafydd Roberts. |

---

Cyn ystyried busnes y cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd i holl staff y Cyngor a fu'n ymateb i'r tywydd garw dros y ddau benwythnos blaenorol, a chydymdeimlodd â'r holl ddeiliaid tai a busnesau a ddioddefodd ddifrod gan y llifogydd o ganlyniad i'r stormydd diweddar.

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG**

Dim i'w adrodd.

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 13, 20 a 27 Ionawr, 2020 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau fel rhai cywir gofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –**

- **13 Ionawr, 2020**
- **20 Ionawr, 2020**
- **27 Ionawr, 2020**

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng mis Chwefror a mis Medi, 2020, a nodwyd y newidiadau canlynol -

- **Eitem newydd**

  - Eitem 18 – y Protocol Siarad Cyhoeddus ar gyfer y Pwyllgorau Sgriwtini (ar gyfer cyfarfod 23 Mawrth, 2020)

- **Eitemau newydd i'w cynnwys yn y Flaen Raglen Waith**

  - Arferion Rheoli'r Trysorlys (ar gyfer cyfarfod 2 Mawrth, 2020)
  - Gorchymyn Prynu Gorfodol Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol Biwmares (ar gyfer cyfarfod 23 Mawrth, 2020)
  - Cyllidebau ar y cyd Gwasanaethau Anabledd Dysgu

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Mawrth hyd at Hydref, 2020 gyda'r newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 5. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2024

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro sy'n cynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod 2020-2024 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried a gwneud sylwadau arno.

Adroddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fel Swyddog Arweiniol ei bod yn statudol ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n cynnwys amcanion cydraddoldeb ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig – oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd/cred, priodas a phartneriaethau sifil. Rhaid adolygu'r Cynllun a'i amcanion o leiaf bob pedair blynedd. Mae cynllun cyfredol yr Awdurdod sy'n cwmpasu'r cyfnod o 2016 i 2020 yn dod i ben ar 31 Mawrth, 2020 ac erbyn hynny mae'n rhaid cyhoeddi cynllun newydd ar gyfer y cyfnod 2020-2024. Diben y Cynllun yw nodi'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i gyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb penodol.

Ymhelaethodd y Rheolwr Polisi a Strategaeth ar amcanion y Cynllun sy'n seiliedig ar adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a hawliau dynol *A yw Cymru'n Decach? 2018.* Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod yr heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw ar sail Cymru gyfan ac yn diffinio'r uchelgais hirdymor y bydd y Cyngor yn gweithio tuag at ei gyflawni. Yn ystod 2011/12, datblygodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru gyfres o amcanion rhanbarthol a rennir a adolygwyd i gyd-fynd â'r gwaith o baratoi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-20; mae'r gwaith o gyflawni'r amcanion hyn yn parhau. Hefyd, datblygwyd amcanion lleol gyda chefnogaeth Rhwydwaith Ymgysylltu Lles Medrwn Môn. Er bod nifer o amcanion, maent yn seiliedig ar anghenion a nodwyd ac maent wedi'u rhannu i wasanaethau mewn ffordd gytbwys sy'n golygu bod gan bawb, gan gynnwys Aelodau Etholedig, gyfraniad i'w wneud i sicrhau eu bod yn cael eu gwireddu. Y nod yn y pen draw yw sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio i waith y Cyngor o ddydd i ddydd ac nad yw'n cael ei weld fel rhywbeth ar wahân gan sicrhau hefyd bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i beidio â gwahaniaethu. Bydd adroddiad blynyddol ar y cynnydd o ran bodloni'r blaenoriaethau/amcanion yn cael ei baratoi gyda golwg ar y Pwyllgor Sgriwtini perthnasol yn craffu arno.

Adroddodd y Cynghorydd G. O. Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Partneriaeth ac Adfywio o gyfarfod y Pwyllgor ar 4 Chwefror, 2020, y cyflwynwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol iddo. Wrth ystyried yr adroddiad, roedd y Pwyllgor wedi nodi'r disgwyliadau statudol ar y Cyngor o ran cyhoeddi amcanion cydraddoldeb a sut y cynigiwyd y byddent yn cael eu bodloni yn y Cynllun Strategol 4 blynedd nesaf. Cafodd y Pwyllgor wybod am y tair elfen y seiliwyd y Cynllun arnynt – sef yr adroddiad "A yw Cymru'n decach?"; cyfres o amcanion rhanbarthol, ac amcanion lleol, a bod y blaenoriaethau drafft wedi'u nodi o dan bob amcan yn seiliedig ar anghenion lleol sydd hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Roedd y Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o weithdrefnau'r Cyngor ar gyfer addysgu staff i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu. Roedd y Pwyllgor wedi nodi ymhellach, gan eu bod yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth, y bydd y cynlluniau cydraddoldeb yn amrywio o sir i sir. Cyfeiriwyd yn ystod trafodaeth y Pwyllgor at y prosesau ar gyfer diwallu unrhyw anghenion newydd a nodir. Ar ôl trafod y mater, roedd y Pwyllgor wedi penderfynu argymell y Cynllun Strategol Cydraddoldeb ar gyfer 2020/24 i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ac roedd hefyd wedi argymell bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i alluogi'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i fonitro cynnydd ar gydraddoldeb bob blwyddyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor Sgriwtini am ei adborth.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Sir –**

- **Ei fod yn cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb drafft y Cyngor ar gyfer 2020-2024, ac awdurododi Swyddogion mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio i gwblhau'r Cynllun a'i gyhoeddi erbyn 31 Mawrth, 2020.**
- **Bod trefniadau yn cael eu rhoi mewn lle i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fonitro fel mater o drefn yn flynyddol y cynnydd o ran cydraddoldeb.**

## 6. POLISI RHYDDHAD ARDRETHI I FUSNESAU

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ynghylch mabwysiadu Fframwaith Rhyddhad Dewisol Ardrethi Busnes ar gyfer elusennau a sefydliadau dielw ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyd at 31 Mawrth, 2026 i'r Pwyllgor Gwaith eu hystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio dros Gyllid fod y Fframwaith Rhyddhad Dewisol Ardrethi Busnes wedi'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith bob blwyddyn ac fel y dywed y ddogfen, rhaid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru roi rhyddhad ardrethi gorfodol i elusennau y darperir ar eu cyfer o fewn Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998 (LGFA88) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. O dan y LGFA88, gall awdurdodau lleol hefyd roi rhyddhad dewisol neu ddileu ardrethi o hyd at 100% o'r ardrethi sy'n daladwy am eiddo a feddiennir gan elusennau (swm ychwanegol o 20% yn ogystal â rhyddhad gorfodol o 80%) a sefydliadau eraill nad ydynt yn gwneud elw. Ar 18 Chwefror, 2019 penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ymestyn ei Fframwaith Rhyddhad Dewisol Ardrethi Busnes – Elusennau a Sefydliadau Nad ydynt yn Gwneud Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 ac i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y fframwaith gyda'r bwriad o weithredu fframwaith diwygiedig (os yw'n berthnasol) ar 1 Ebrill, 2020. Cynhaliwyd ymgynghoriad 3 haen o dan Gynllun Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Cyngor yn ystod Chwarter 1 a ddaeth i ben ar 31 Awst, 2019 a chysylltwyd â phob trethdalwr a oedd yn gymwys i gael rhyddhad dewisol o dan y polisi cyfredol. Er bod yr ymateb yn siomedig (dim ond 4 ymatebwr gyda 2 o'r rheini'n gwneud hynny'n ddienw) mae'r diffyg ymateb yn awgrymu bod y polisi presennol yn cael ei dderbyn yn gyffredinol ac nad oes unrhyw agweddau'n cael eu herio'n ddifrifol. Gan ystyried yr ymateb cyfyngedig a gafwyd, cynigir felly nad yw'r polisi presennol yn cael ei newid ond bod yr arfer o ymestyn y polisi'n flynyddol yn cael ei ddisodli gan gyfnod penodol sy'n cyd-fynd â'r cylch ailbrisio pum mlynedd. (Er y bydd ailbrisio ardrethi annomestig yng Nghymru yn

digwydd nesaf yn 2021, y cynnig yw cadw at y polisi presennol tan yr ailbrisiad dilynol yn 2026). Gall Aelodau ddewis diwygio'r fframwaith yn ystod y cyfnod hwn ond mae'n rhaid rhoi rhybudd o o leiaf un flwyddyn ariannol lawn i drethdalwyr.
Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mai cost bresennol y cynllun i'r Cyngor yw £64,338 y telir amdano gan ddarpariaeth o £70k yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020/21.

**Penderfynwyd –**

- **Mabwysiadu Fframwaith ar gyfer Rhyddhad Trethi Busnes Dewisol – Elusennau a Sefydliadau Dielw fel y manylir arni yn Atodiad C yr adroddiad.**
- **Bydd y Fframwaith ar gyfer Rhyddhad Trethi Busnes Dewisol mewn grym ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyd at 31 Mawrth, 2026.**
- **Rhoi cyfarwyddiadau i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 sicrhau y rhoddir gwybod cyn 31 Mawrth, 2020 i elusennau perthnasol a sefydliadau dielw y bydd y polisi mewn grym o 1 Ebrill, 2020 ac y daw i ben ar 31 Mawrth, 2026.**

## 7. RHENTI'R CYFRIF REFENIW TAI (CRT) A THALIADAU'R GWASANAETH TAI 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i gynyddu'r rhent a'r taliadau gwasanaeth ar gyfer 2020/21 i'w hystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau fod Llywodraeth Cymru ar 18 Rhagfyr, 2019 wedi cadarnhau ei bod wedi cytuno ar bolisi Llywodraeth Cymru ar Renti Tai Cymdeithasol ar gyfer 2020/21. Mae'r Adolygiad o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy wedi argymell y dylid gweithredu polisi rhenti 5 mlynedd er mwyn rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i denantiaid ac argymhellir hefyd y dylai landlordiaid ystyried gwerth am arian yn ogystal â fforddiadwyedd. Bydd y fformiwla ar gyfer y cynnydd mewn rhent blynyddol yn cael ei osod ar y mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) o 1.7% fel oedd y gwerth ym mis Medi, 2019 ynghyd ag 1%. Oherwydd bod lefelau rhent cyfredol y Cyngor yn sylweddol is na'r rhenti targed yn y polisi, bydd angen cynnydd wythnosol o hyd at £2 uwchben y cynnydd chwyddiant canrannol (yn achos y rhenti sy'n is na'r rhent targed) er mwyn sicrhau eu bod yn gyson gyda rhent darparwyr tai cymdeithasol eraill.

Tynnodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau sylw at y ffaith ei bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, weithredu'r Polisi Rhent – byddai gwrthod y polisi hwn yn y pen draw yn golygu y byddai'r Awdurdod yn colli incwm ac y byddai hynny'n anochel yn effeithio ar y gwasanethau a ddarperir. Byddai hyn hefyd yn tanseilio'r Cynllun Busnes CRT ac o bosib yn ein gadael yn agored i ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru. Gallai gwrthod y polisi hwn hefyd beryglu'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr blynyddol o dros £2.66 miliwn a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru oherwydd gellid ystyried nad ydym yn gwneud y mwyaf o'n cyfleoedd i greu incwm.

Mewn ymateb i gwestiynau am fforddiadwyedd ac effaith bosibl ar allu tenantiaid i dalu, dywedwyd wrth y Pwyllgor Gwaith fod y cynnydd arfaethedig yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol. Hefyd, mae gan y Gwasanaethau Tai dri o Swyddogion Cynhwysiant Ariannol sydd ar gael i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i denantiaid am faterion cynhwysiant ariannol sy'n canolbwyntio'n gryf ar gynyddu sgiliau gallu ariannol a chyllidebu er mwyn i bobl allu rheoli eu harian a chael mynediad i wasanaethau ariannol prif lif. Datblygwyd cysylltiadau hefyd i wella arferion gwaith ar lefel strategol a gweithredol gyda phartneriaid mewnol ac allanol fel sefydliadau cymorth a chyngor, elusennau a chyfleustodau.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r cynnydd mewn rhent yn unol â rhent targed Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gasgliad dros 51 wythnos.**
- **Cymeradwyo cynnydd o 2.7% yn yr holl renti sydd rhwng £0.41 - £4.47 yn is na'r targed yn ogystal â swm hyd at yr uchafswm o £2.00 yr wythnos i gyrraedd y rhent targed.**
- **Cymeradwyo cynnydd o 2.7% yn yr holl renti sydd rhwng £3.87 - £5.01 yn is nar targed a £2.00 ychwanegol yr wythnos.**
- **Bod y rhent ar gyfer y 3 eiddo sydd â rhent uwch na'r lefel targed yn aros fel y mae.**
- **Cymeradwyo cynnydd o 22c yr wythnos ar gyfer rhenti'r holl garejys.**
- **Cymeradwyo'r taliadau gwasanaeth a nodir yn adran 3.3 yr adroddiad ar gyfer yr holl denantiaid sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol.**

## 8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Penderfynwyd–**

**O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y golygai ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd ef.**

## 9. POLISI GWIRIO AR SAIL RISG – BUDD

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn gofyn am gefnogaeth y Pwyllgor Gwaith i gyflwyno proses ddilysu yn seiliedig ar risg ar gyfer gweinyddu Budd-daliadau Tai a Lleihau Treth y Cyngor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio dros Gyllid fod yr Adran Budd-daliadau ar hyn o bryd yn cyflawni'r un lefel o wiriad ym mhob achos, sef lefel gwirio sylfaenol fel y nodir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau sydd bellach yn segur. Gan fod hyn yn gofyn am lawer o waith, mae'n ei gwneud yn anos rhoi ffocws ychwanegol a gallu adolygu achosion lle mae'r risg o dwyll/gwallau ar ei huchaf. Er bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi caniatáu disgresiwn i awdurdodau weithredu eu prosesau gwirio seiliedig ar risg eu hunain ers 2011, nid yw'n rhywbeth y mae'r awdurdod wedi dymuno ei wneud tan nawr. Mae adolygiad diweddar o brosesau sydd wedi'i ategu gan leihad mewn achosion o Fudd-dal Tai wedi arwain at ystyried dilysu ar sail risg unwaith eto. Mae'r adain budd-daliadau hefyd wedi cynnal adolygiad i ganfod a oedd prosesau'n cael eu cynnal yn y ffordd fwyaf effeithiol. Cynhaliodd yr Adain Budd-daliadau ddadansoddiad risg o hawliadau sampl dros gyfnod a nododd gategorïau o hawlwyr lle'r oedd mwy o risg o newidiadau a arweiniodd at ordalu gwallau gan hawlwyr. Mae'r adroddiad yn Atodiad B yn nodi'r fethodoleg a ddefnyddiwyd a'r canfyddiadau a gafwyd. Hefyd cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac fe'i dangosir yn Atodiad C i'r adroddiad.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y cynnig i gyflwyno polisi dilysu seiliedig ar risg yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, 2019 a bod y sylwadau a wnaed yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad, y polisi a'r fethodoleg. Eglurodd y Swyddog, wrth i Gredyd Cynhwysol gael ei weithredu a bod grant yr Adran Gwaith a Phensiynau yn lleihau, fod y Cyngor yn ceisio gwneud gwell defnydd o'r adnoddau sy'n weddill drwy ganolbwyntio sylw ar yr achosion hynny y tybir eu bod mewn perygl mawr o gynnwys twyll neu wall. Fodd bynnag, bydd yn rhaid adolygu'r polisi yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol a bod dosbarthiad y grwpiau risg yn parhau'n ddilys.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor Gwaith am arferion awdurdodau eraill, gallu systemau, hyfforddiant staff ac effaith o ran amseroedd prosesu hawliadau, eglurodd Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod nifer o'r awdurdodau bellach wedi mabwysiadu proses dilysu risg; Mae'r system technoleg gwybodaeth Northgate a ddefnyddir gan yr Awdurdod ar hyn o bryd yn cynnwys darpariaeth y gellir ei defnyddio at y diben hwn ac er bod staff Budd-daliadau yn dilyn hyfforddiant rheolaidd fel mater o drefn, bydd rhaglen o hyfforddiant yn cael ei chynnal i baratoi ar gyfer gweithredu'r polisi. Y nod yw gweld gostyngiad yn nifer y dogfennau a drafodir, a gwell amseroedd gweinyddu a phrosesu.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Gwaith y byddai'n dymuno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu'r polisi.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi a chymeradwyo'r cynnig bod yr Adain Fudd-daliadau yn cyflwyno proses wirio yn seiliedig ar risg ar gyfer gweinyddu Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.**
- **Cymeradwyo'r Polisi Gwirio ar sail Risg fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad a nodi y bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n adolygu'r polisi hwn yn flynyddol.**
- **Cyfarwyddo'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 i sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i gyflwyno proses wirio ar sail risg yn unol â'r amserlen gytunedig.**

**Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 2 Mawrth, 2020

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer eitemau 9,10,11)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Richard Owain Jones, Nicola Roberts |

---

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb ar gychwyn y cyfarfod.

**2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim

**3. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 3 2019/20**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 3 blwyddyn ariannol 2019/20.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid, ar sail y wybodaeth ar ddiwedd Chwarter 3, gan gynnwys cyllid corfforaethol a'r Dreth Gyngor, y rhagwelir gorwariant o £1.246m yn 2019/20, sydd yn cyfateb i 0.92% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2019/20. Mae hyn i'w briodoli i bwysau ariannol tebyg i'r rhai a brofwyd yn 2018/19, yr adroddwyd arnynt drwy gydol y flwyddyn ariannol bresennol wrth adrodd ar y gyllideb, a'r pwysau mwyaf sylweddol yw costau yn y Gwasanaeth Oedolion a Chludiant Ysgol. Mae angen i'r Gyllideb ar gyfer 2020/21 roi sylw i'r pwysau ar y meysydd hyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod y gorwariant o £1,246m a ragwelir yn destun pryder oherwydd y bydd rhaid cwrdd â'r costau o Gronfeydd

Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor a rhagwelir y bydd yr arian wrth gefn yn gostwng ymhellach i lai na £5m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn sylweddol is na'r isafswm o £6.7m a bennwyd ar gyfer y gronfa wrth gefn gyffredinol a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 27 Chwefror, 2019. Yn ystod y flwyddyn mae cynnydd yn nifer y cleientiaid y mae angen darpariaeth gostus arnynt wedi rhoi pwysau ar gyllidebau Gofal Cymdeithasol Oedolion - mae cynlluniau i gydnabod y pwysau hwn yng Nghyllideb 2020/21.

Wrth nodi'r wybodaeth, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith a yw'r gorwariant wedi digwydd oherwydd bod y gwasanaeth yn gwario mwy na'i gyllideb graidd neu a yw'r adnoddau a ddyrannir wrth bennu'r gyllideb graidd yn annigonol i gwrdd â'r galw. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith a fyddai'n bosib bod yn fwy manwl gywir wrth ragweld y galw er mwyn tynnu pwysau oddi ar gynllunio'r gyllideb.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, er nad yw'n bosib rhagweld pob un achos costus, mae'r Gwasanaeth yn ceisio rhoi cynllun 3 blynedd mewn lle fydd yn rhoi sylw i bob maes, o Anableddau Dysgu i Iechyd Meddwl, ac a fydd yn nodi'r camau y gellir eu cymryd i ragamcanu'r nifer tebygol o atgyfeiriadau ac i reoli costau wrth i'r atgyfeiriadau hynny ddod i mewn. Bydd hyn yn caniatáu i'r Gwasanaeth ystyried yr heriau o ran ariannu, comisiynu a chydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o reoli'r galw, a'i leihau cyn belled â phosib, o fewn y gofyn cyffredinol i ddiwallu anghenion pobl. Ni fydd y Gwasanaeth fyth mewn sefyllfa i ragweld y galw yn fanwl gywir gan fod rhai unigolion yn dirywio'n gyflym gan olygu eu bod angen darpariaeth fwy dwys a bydd unigolion yn parhau i symud i fyw ar yr Ynys a rhai ohonynt angen cefnogaeth.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod £1.4m o arian ychwanegol wedi ei gynnwys yn y Gyllideb ar gyfer 2019/20 i gefnogi'r Gwasanaethau Plant, a oedd yn wynebu sefyllfa debyg y llynedd o ran gorwariant, a bod y camau hynny wedi arwain at welliant sylweddol yng nghyllideb y Gwasanaeth hwnnw yn 2019/20. Fodd bynnag, oherwydd bod rhagweld y galw yn anodd ei wneud, mae'r sefyllfa o ran Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant yn ansefydlog. Mae poblogaeth sy'n heneiddio a chynnydd yn y galw yn golygu bod angen strategaeth genedlaethol mewn gwirionedd i ddatrys problemau ariannu ym maes Gofal Cymdeithasol Oedolion neu bydd cynghorau yn parhau i orfod delio gyda materion wrth iddynt godi yn hytrach na chynllunio ar gyfer y dyfodol.

**Penderfynwyd nodi'r canlynol –**

- **Y sefyllfa a amlinellir yn atodiadau A a B yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2019/20.**
- **Crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2019/20 fel y manylir arnynt yn Atodiad C.**
- **Y sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglen buddsoddi i wario yn Atodiad CH.**
- **Y sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2019/20 yn Atodiad D.**
- **Y modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2019/20 yn Atodiadau DD, E ac F.**

## 4. MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 3 2019/20

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar ddiwedd Chwarter 3 blwyddyn ariannol 2019/20.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod 88% o'r gyllideb a broffiliwyd yn achos y gronfa gyffredinol wedi cael ei wario hyd at ddiwedd chwarter 3, fodd bynnag, dim ond 39% o'r gyllideb flynyddol sydd wedi cael ei gwario hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o

gynlluniau cyfalaf yn gwario tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio na fydd yr arian yn cael ei golli, ond yn hytrach bydd yn llithro i 2020/21.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, er bod y tanwariant o £13.492m yn erbyn cyllideb o £42.392m yn ymddangos yn uchel, mae'n ymwneud ag ychydig o gynlluniau yn unig. Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r Grant Cronfa Gofal Ganolradd (ICF) yn hytrach nag arian craidd ar gyfer cyfleusterau/addasiadau i'r anabl gan arwain at danwariant o £0.450m yn y gyllideb graidd. Er bod gwaith wedi cychwyn ar y safle i Sipsiwn a Theithwyr yn Star, Gaerwen bellach, bu oedi ar y cychwyn a bydd y cynllun yn cario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 73% o'r gyllideb a broffiliwyd a 54% o'r gyllideb flynyddol ac er y bu peth oedi o ran prynu, adnewyddu ac adeiladu tai newydd, rhagwelir y bydd 19 o unedau ychwanegol yn cael eu cwblhau yn ystod y misoedd nesaf. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn ail-ymgynghori ar y cynllun olaf dan Band A Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysg yn ardal Llangefni, ar ôl i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei ddiddymu a'r oedi hwn sydd i gyfrif am oddeutu £5m o danwariant yn yr arian cyfalaf. Bu oedi ym mhrosiect Seilwaith Strategol Caergybi a'r prosiect Porth Ymwelwyr tra'n aros am eglurhad o'r broses grantiau - mae'r ddau brosiect ar waith erbyn hyn. Yn yr un modd, bu oedi yng nghynllun amddiffyn rhag llifogydd Traeth Coch a ni fydd gwaith yn digwydd eleni gan fod angen datrys manylion dylunio. Yn achos y cynlluniau sydd wedi llithro, mae rhai ohonynt wedi cychwyn bellach a bydd cynlluniau eraill yn cychwyn y flwyddyn nesaf a bydd y sefyllfa hon yn cael ei adlewyrchu yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21.

**Penderfynwyd nodi cynnydd gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2019/20 yn Chwarter 3.**

## 5. MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI – CHWARTER 3 2019/20

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 3 2019/20.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod sefyllfa refeniw'r CRT ar gyfer Chwarter 3 yn dangos gorwariant o £220k. Bellach, rhagwelir y bydd incwm £146k yn is na'r gyllideb wreiddiol a rhagwelir y bydd gwariant £75k yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Mae gwariant cyfalaf £2,896k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Rhagwelir y bydd gwariant £3,117k yn is na'r gyllideb. Mae'r diffyg a ragwelir (yn cyfuno refeniw a chyfalaf) £2,896k yn llai na'r gyllideb (gan greu gwarged o £789k), o gymharu â £40k yn uwch ar gyfer Chwarter 2, yn bennaf oherwydd bod gwariant cyfalaf is na'r gyllideb.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y bydd balans wrth gefn y CRT ar ddiwedd y flwyddyn o £9,176k yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at ariannu datblygiadau tai newydd ac y bydd y newid yn y balans yn sgil hyn yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Busnes y CRT fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**Penderfynwyd nodi'r canlynol –**

- **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 3 2019/20.**
- **Y canlyniad a ragwelir ar gyfer 2019/20.**

## 6. DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ynglŷn â defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau. Mae'r

adroddiad yn nodi asesiad y Swyddog Adran 151 ar lefel balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn ar gyfer 2020/21 ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â dyrannu balansau cyffredinol i'w defnyddio yn ystod 2020/21.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod y balansau cyffredinol yn £5.192m ar 31 Mawrth 2019, gostyngiad o £987k o'r flwyddyn flaenorol. Er nad oes rheol bendant ynghylch lefel y balansau y dylai Cyngor eu cynnal, mae rheol y fawd yn bodoli sy'n awgrymu y dylai balansau gyfateb i 5% o'r gyllideb refeniw net. Mae hyn yn cyfateb i swm o £7.1m ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yn 2020/21. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd gorwariant o £1.24m yn y gyllideb refeniw yn 2019/20 fydd yn cael ei ariannu o'r balansau cyffredinol. Yn ogystal, bydd £425k yn cael ei symud i gronfeydd wrth gefn gwasanaeth os yw'r Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo hynny yn dilyn mabwysiadu dull newydd fydd yn caniatáu gwasanaethau i drosglwyddo tanwariant (os oes tanwariant ar gyllidebau y gellir eu rheoli ac nad ydynt yn cael eu harwain gan y galw) i gronfa wrth gefn gwasanaeth er mwyn cynorthwyo i reoli pwysau neu i ariannu prosiectau yn y dyfodol lle nad oes cyllideb ar eu cyfer. O ystyried yr holl faterion hyn, amcangyfrifir y bydd y balansau cyffredinol yn gostwng i tua £4.6m ar 31 Mawrth 2020. Yn ogystal, mae gan y Cyngor nifer o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd at ddibenion penodol, fel y rhestrir yn adran 4.1 yr adroddiad – dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod wedi gofyn i'r Swyddog Adran 151 adolygu'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ganfod a fyddai modd eu rhyddhau neu eu trosglwyddo i'r balansau cyffredinol.

Ychwanegodd yr Aelod Portffolio nad yw'n realistig, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, i gynllunio am warged er mwyn cynyddu'r balansau cyffredinol fel eu bod yn cyrraedd y lefel sylfaenol a bod rhaid cynyddu'r balansau cyffredinol yn raddol dros gyfnod o 3 i 5 mlynedd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal astudiaeth o gadernid ariannol pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ac mae'r adborth cychwynnol a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn, cyn cyhoeddi'r adroddiad ffurfiol, wedi amlygu bod y gostyngiad ym malansau'r Cyngor yn risg ariannol i'r Cyngor ac y bydd rhaid rhoi sylw i'r mater yn ystod y blynyddoedd nesaf. Cadarnhaodd y Swyddog bod adolygiad cychwynnol o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd wedi nodi dwy gronfa wrth gefn y gellir eu trosglwyddo'n ôl i'r balansau cyffredinol. Er bod balansau ysgolion Ynys Môn wedi bod yn uchel yn hanesyddol o gymharu ag ysgolion mewn rhannau eraill o Gymru, maent wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac ar 31 Mawrth 2019 roedd balansau ysgolion yn £0.631m. Mae'n debygol iawn y bydd y gronfa wrth gefn hon yn gostwng ymhellach yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 er na fydd hyn yn cael ei gadarnhau nes bydd cyfrifon 2019/20 wedi cau ac yn dilyn hynny cyflwynir adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith tua mis Gorffennaf 2020.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r polisi cyffredinol ynglŷn â chronfeydd wrth gefn a balansau a fabwysiadwyd ar 1 Mawrth 2016, fel y nodir hynny yn Atodiad A.**
- **Cymeradwyo'r newid i'r polisi cyffredinol ar gronfeydd wrth gefn a balansau a fabwysiadwyd ar 1 Mawrth 2016, fel y nodir hynny yn Atodiad A.**
- **Pennu isafswm balansau cyffredinol o £7.11m ar gyfer 2020/21 yn unol ag asesiad y Swyddog Adran 151.**
- **Cynllunio am gynnydd yn y balansau cyffredinol dros gyfnod o 3 i 5 mlynedd er mwyn sicrhau bod lefel gwirioneddol y cronfeydd wrth gefn yn cyrraedd y lefel sylfaenol. Cyflawnir y cynnydd yma drwy gyllidebu am wargedau blynyddol a gynllunnir.**
- **Cadarnhau parhad y cronfeydd wrth gefn presennol a glustnodwyd.**
- **Cymeradwyo trosglwyddo cronfeydd wrth gefn Morgeisi Gofalwyr Maeth a System Rheoli Polisïau o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i'r Cronfeydd wrth gefn Cyffredinol.**

## 7. DATGANIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2020/21

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arferion gorau yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys a chadarnhaodd, mewn perthynas â diweddaru'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, nad oes unrhyw newidiadau'n cael eu hargymell i egwyddorion craidd a pholisïau Datganiad 2019/20.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi craffu ar y Datganiad yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2020 a chafodd ei dderbyn heb wneud unrhyw sylwadau pellach arno. I grynhoi, nid oes unrhyw newid yn ymagwedd y Cyngor at fenthyca gan olygu na fydd ond yn benthyca pan fod angen gwneud hynny, a bydd yn benthyca'n fewnol lle bo hynny'n ymarferol h.y. bydd yn defnyddio'r arian parod sydd ganddo. Nid yw'r Cyngor yn benthyca mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. O ran buddsoddi, mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn parhau i gefnogi ymagwedd ofalus yn seiliedig ar sicrhau diogelwch buddsoddiadau fel y brif ystyriaeth ac o'r herwydd ni fydd y Cyngor ond yn buddsoddi mewn gwrthbartïon sydd â lefel uchel iawn o deilyngdod credyd, gan gynnwys awdurdodau lleol eraill, am gyfnod byr gan yr ystyrir eu bod yn fuddsoddiadau risg isel. Mae'n annhebygol y bydd dyledion yn cael eu had-dalu'n gynnar gan fod y gosb am ad-dalu dyledion yn gynnar yn uwch na'r arbedion a wneir o ran taliadau llog. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd angen i'r Cyngor fenthyca mwy yn ystod y blynyddoedd nesaf er mwyn diwallu anghenion y rhaglen foderneiddio ysgolion wrth iddi ddatblygu a hefyd er mwyn ariannu gwariant y Cyfrif Refeniw Tai.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020/21 ac anfon y Datganiad ymlaen i'r Cyngor Llawn heb wneud unrhyw sylwadau pellach.**

## 8. ARFERION RHEOLI TRYSORLYS

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori Arferion Rheoli Trysorlys diwygiedig y Cyngor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arferion gorau yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Mae'r Côd yn argymell bod y Cyngor yn dogfennu ei weithdrefnau rheoli trysorlys ar ffurf Arferion Rheoli Trysorlys.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod yr Arferion Rheoli Trysorlys, fel y'u dogfennwyd, yn dangos sut mae'r Cyngor yn rheoli ei weithgareddau trysorlys. Cwblhawyd a chymeradwywyd yr Arferion Rheoli Trysorlys presennol yn 2016. Cawsant eu hadolygu a'u diweddaru i gynnwys adran (TMP13) ar fuddsoddiadau'r Cyngor nad ydynt yn fuddsoddiadau trysorlys, yn unol â gofynion y Côd CIPFA diwygiedig. Buddsoddiadau'r Cyngor nad ydynt yn fuddsoddiadau trysorlys yw'r eiddo buddsoddi a reolir gan y Gwasanaeth Eiddo ac sy'n cynhyrchu incwm rhent ychwanegol i'r Cyngor ar adeg pan mae arian gan y Llywodraeth yn lleihau. Maent yn cynnwys eiddo manwerthu, swyddfeydd ac unedau masnachol. Mae cyfran helaeth o'r portffolio yn unedau masnachol. Bu i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu ar yr Arferion Rheoli Trysorlys, a'u cymeradwyo, yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror 2020.

DRAFT

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad eglurhaol.**
- **Cymeradwyo'r Arferion Rheoli Trysorlys Diwygiedig (ARhT) sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad 2 yr adroddiad ac argymell yr ARhT i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth, 2020.**

**9. GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL DIBRESWYL YN Y GYMUNED - FFIOEDD A THALIADAU 2020/21**

Cyflwynwyd, er ystyriaeth, adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned ar gyfer 2020/21.

Dywedodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol bod y taliadau ar gyfer gwasanaethau gofal cartref yn cael eu hadolygu'n flynyddol i gyd-fynd ag adolygiad y Llywodraeth Ganolog o lefelau budd-daliadau a phensiynau. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned ar gyfer 2020/21, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**

- **Y taliadau Gofal Cartref a amlinellir yn Nhabl 1 yr adroddiad.**
- **Y taliadau ar gyfer Gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellir yn Nhabl 4 yr adroddiad.**

**Haen 1 – bydd pawb yn talu £47.97**
**Haen 2 a 3 – bydd pawb yn talu £95.55**

- **Y Taliadau Teleofal blynyddol fel yr amlinellir yn Nhabl 5 yr adroddiad**

**Gwasanaethau Cynnal a Chadw-£114.12**
**Gwasanaethau yn unig - £73.76**
**Gosod unwaith ac am byth - £45.63**

- **Graddfa ar gyfer Taliadau Uniongyrchol o £11.65 yr awr**

- **Cynnal y taliad o £10 ar gyfer gweinyddu ceisiadau am Fathodyn Glas a rhai yn lle rhai sydd wedi eu colli neu eu dwyn fel yr amlinellwyd.**

- **Cynyddu'r ffi ar gyfer prynu gwasanaethau gofal dydd gan gartrefi preswyl annibynnol 3% i £34.18**

**10. CARTREFI'R AWDURDOD LLEOL AR GYFER POBL HŶN – PENNU'R FFI SAFONOL**

Cyflwynwyd, er ystyriaeth, adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i bennu lefel Ffi Safonol ar gyfer cartrefi'r awdurdod lleol ar gyfer pobl hŷn am y flwyddyn Ebrill 2020 i Fawrth 2021.

Cyflwynodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad yn amlinellu'r sail ar gyfer cyfrifo'r ffi safonol ac yn amlygu bod costau'r holl gartrefi wedi cael eu cyfuno er mwyn cyfrifo ffi safonol gyfartalog ar gyfer y cartrefi, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Fodd bynnag, unwaith eto wrth gyfrifo'r Ffi Safonol ar gyfer 2020/21 ni chynhwyswyd Garreglwyd yn y ffigyrau gan fod y cartref wedi cael ei ailfodelu a'i fod yn

darparu gwasanaeth arbenigol erbyn hyn. Ar sail y cyfrifiadau, a chan gynnwys chwyddiant, amcangyfrifir bod y gost fesul preswylydd ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021 yn £760.38.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod y ffi a gynigir yn adlewyrchu penderfyniad y Pwyllgor Gwaith i gynyddu ffioedd yn unol â gwir gost y ddarpariaeth yn raddol dros gyfnod o 3 blynedd a thrwy hynny osgoi effaith cynnydd sylweddol yn y ffi ar breswylwyr h.y. o £664.11 yn 2019/20 i £760.38 yn 2020/21.

**Penderfynwyd –**

- **Er bod y Cyngor yn cydnabod y costau sy'n gysylltiedig â gofal preswyl, nid yw cost wirioneddol darparu'r gwasanaeth wedi ei adlewyrchu yn y tâl a godir ar drigolion.**
- **Yn unol â'r cynigion arbedion a wneir i ddiddymu'r cymhorthdal a roddir i rai sy'n hunangyllido rhwng 2019-20 a 2021-22, bod y cynnydd ar gyfer y rhai hynny sy'n cyfrannu tuag at gost gofal yn cael ei osod ar 3% ynghyd â chyfran pob defnyddiwr o draean y cymhorthdal a roddir i'r rhai sy'n hunangyllido.**
- **Bod y ffi ar gyfer 2020-21 felly yn cael ei osod ar £722.21 (£664.11 + 3% + (1/2 x £76.35).**

## 11. FFIOEDD CARTREFI GOFAL Y SECTOR ANNIBYNNOL AR GYFER 2020/21

Cyflwynwyd, er ystyriaeth, adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol ar gyfer 2020/21.

Cyflwynodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad a'i argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a dywedodd bod rhaid i'r Awdurdod Lleol adolygu ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol bob blwyddyn i gyd-fynd â newidiadau a wneir gan Lywodraeth Ganolog i lefelau budd-daliadau a phensiynau.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth bennu ffioedd ar gyfer cartrefi gofal yn y sector annibynnol rhaid dangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth lawn i gostau'r ddarpariaeth wrth benderfynu ar ffioedd gofal safonol. Gwneir hyn mewn cydweithrediad ag Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio Methodoleg Ffioedd Rhanbarthol, fel y gwnaed yn y blynyddoedd diwethaf. Bydd yr Awdurdod yn parhau i ddefnyddio'r model hwn ar gyfer 2020/21 sy'n adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol mewn perthynas â phensiynau, y cyflog byw cenedlaethol a chwyddiant. Fel rhan o'r broses pennu ffioedd ar gyfer 2020/21, mae ynys Môn wedi ymgynghori ar y fethodoleg ffioedd Gogledd Cymru ac ni dderbyniwyd unrhyw adborth. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Swyddog Adran 151, mae'r Awdurdod yn argymell defnyddio'r fethodoleg Ranbarthol ar gyfer Gofal Preswyl i Bobl Hŷn Bregus eu Meddwl (EMI) ac elfen Gofal Cymdeithasol Gofal Nyrsio Sylfaenol. Mae'r gwasanaeth yn argymell cynnydd o 12% yn yr elw ar fuddsoddiad (ROI) ar leoliadau Nyrsio EMI i gydnabod y pwysau yn y maes hwn ac yn unol â'r ffioedd a gynigir gan awdurdodau lleol cyfagos. Yn unol â'r cyfeiriad strategol y mae'r Cyngor yn ei gymryd o ran datblygu dewisiadau amgen ar ffurf Tai Gofal Ychwanegol a gofal cartref, ac wedi ystyried fforddiadwyedd y cynnydd a gynigir ar gyfer cartrefi gofal preswyl, cynigir pennu'r raddfa ar gyfer gofal preswyl (Oedolion) yn seiliedig ar gyfradd is o elw ar incwm, sef 9%. Nodir y ffioedd y mae Ynys Môn yn eu hargymell ar gyfer 2020/21 yn Nhabl 2 yr adroddiad.

Eglurodd y Swyddog efallai y bydd angen ystyried cyflwyniadau unigol gan ddarparwyr ynghylch y ffioedd hyn. Petai tystiolaeth glir i ddangos nad yw'r ffi a bennwyd yn ddigonol mewn unrhyw achos unigol, bydd angen i'r Cyngor ystyried eithriadau i'r ffioedd a bennwyd.

**Penderfynwyd –**

- **Cydnabod Methodoleg Ffioedd Gogledd Cymru fel y cafodd ei gweithredu hyd yma gan yr Awdurdodau yng Ngogledd Cymru fel sylfaen ar gyfer pennu ffioedd yn Ynys Môn yn ystod 2020/21 (Atodiad 1).**
- **Cymeradwyo'r argymhelliad i gynyddu'r lefelau ffioedd fel y nodwyd yn Nhabl 2;**
- **Yr un modd ag Awdurdodau eraill, rhoi'r awdurdod i'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyllid ymateb i unrhyw geisiadau gan Gartrefi i edrych ar eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sylfaen i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cytuno gyda'r Aelod Portffolio, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth Adnoddau a'r Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol o'r cyllidebau cyfredol. Oni fedrir dod i gytundeb, bydd y mater yn mynd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith.**

**12. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL A CHYLLIDEB 2020/21**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ceisio barn y Pwyllgor Gwaith ar Gyllideb Refeniw'r Cyngor a'r Dreth Gyngor ar gyfer 2020/21 yn deillio o hynny; y Strategaeth Ariannol Tymor Canol a ddiweddarwyd a defnyddio arian unwaith am byth i gefnogi'r gyllideb.

*Ar yr adeg hon, datganodd yr Aelod Portffolio Cyllid ddiddordeb personol ond heb fod yn rhagfarnus mewn perthynas â Phremiwm y Dreth Gyngor.*

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid, er bod y Cyngor yn croesawu'r arian ychwanegol sydd ar gael fel rhan o'r setliad refeniw ar gyfer 2020/21, mae'r rhagolygon ariannol yn parhau i fod yn heriol. Yn ogystal, mae'n anodd dirnad sut y cafodd y fformiwla cyllido ei chymhwyso o ystyried bod cymaint o amrywiaeth yn lefel y cynnydd y mae cynghorau yng Nghymru wedi'i derbyn.

Mae cynnydd o 3.8% yn setliad Ynys Môn. Wrth gyfeirio at yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion drafft y gyllideb refeniw, a oedd yn fwy cyfyngedig eleni oherwydd bod yr amserlen wedi cael ei thocio, dywedodd yr Aelod Portffolio, er bod mwyafrif o blaid buddsoddi yn y Gwasanaethau Oedolion mewn ymateb i'r cynnydd yn y galw; diogelu cyllidebau ysgolion a gweithredu'r arbedion arfaethedig, roedd llai yn cefnogi cynnydd o rhwng 4.5% i 5% yn y Dreth Gyngor, gyda 69.88% o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r fath gynnydd. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod gofyn cyfreithiol ar yr Awdurdod i lunio cyllideb gytbwys.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 nad oedd gwahaniaeth rhwng y setliad ariannol terfynol a gadarnhawyd ar 25 Chwefror, 2020 a'r setliad dros dro o £101.005m ar gyfer Ynys Môn a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019 ac yr adroddwyd arno i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2020. Fodd bynnag, roedd y setliad terfynol yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol a oedd yn ceisio egluro pam fod lefel y cynnydd yn y setliad yn wahanol o un awdurdod i'r llall. Ar ôl cymryd y setliad terfynol i ystyriaeth, byddai angen £41.172m o arian Treth Gyngor i gyllido gofynion cyllideb o £142.177m, sydd yn cyfateb i gynnydd o 4.58% yn y Dreth Gyngor.

Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o ragdybiaethau o ran lefelau incwm a gwariant tebygol yn ystod y blynyddoedd nesaf ac o ganlyniad mae nifer o risgiau cynhenid yn y gyllideb arfaethedig. Amlygir y risgiau hyn yn adran 5 yr adroddiad a'r prif risgiau yw dyfarniad cyflog staff a'r galw am wasanaethau. Cytunwyd ar ddyfarniad cyflog athrawon hyd at fis Medi 2020 ac mae'r swm angenrheidiol wedi'i gynnwys yn y cynigion ar gyfer y gyllideb. Fodd bynnag, ni chytunwyd ar ddyfarniad cyflog o fis Medi 2021 ymlaen ac er y caniatawyd ar gyfer cynnydd o 2%, mae'n bosib na fydd hyn yn ddigonol. Mae mwy o risg yn gysylltiedig â'r dyfarniad cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon fydd yn cael ei weithredu o 1 Ebrill 2020 gan nad oes cytundeb yn ei gylch hyd yma. Mae'r Cyflogwyr wedi cynnig cynnydd o 2% ond mae'r Undebau'n gofyn am gynnydd o 10%. Mae arian ychwanegol wedi'i

gynnwys yn y gyllideb ar gyfer cynnydd o 2% mewn cyflogau. Byddai pob 1% uwchlaw'r ffigwr hwn yn golygu cynnydd o £450k yn y costau blynyddol. Mae'r risg sylweddol arall yn ymwneud â galw, yn arbennig yn y Gwasanaethau Oedolion, y Gwasanaethau Plant ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r gyllideb ddigyfnewid ar gyfer 2020/21 wedi cymryd i ystyriaeth y cynnydd yn y galw yn ystod 2019/20 ond ni fyddai unrhyw gynnydd pellach yn cael ei gyllido gan arwain at risg o orwariant pellach 2020/21.

Fel arfer, wrth osod y gyllideb, byddai'r Cynllun Ariannol Tymor canol yn cael ei ddiweddaru hefyd. Fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch ariannu yn y dyfodol, byddai diweddaru'r cynllun ar hyn o bryd yn dybiannol ar y gorau, a gallai gam-gyfleu'r gwir sefyllfa. Disgwylir i'r sefyllfa ddod yn gliriach yn ystod y misoedd nesaf a bydd y Pwyllgor Gwaith yn derbyn diweddariad ar sefyllfa ariannol y Cyngor ym mis Medi 2020.

Adroddodd y Cynghorydd Richard Owain Jones, Is-gadeirydd cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2020 ar drafodaethau'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw. Roedd y Pwyllgor wedi trafod cynigion terfynol y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2020/21 gan roi ystyriaeth i'r adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus a chyflwyniad llafar manwl gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar opsiynau'r gyllideb a'u heffaith posib ar y cynnydd yn y Dreth Gyngor. Wrth nodi'r setliad terfynol, a oedd yn gadarnhaol, roedd y Pwyllgor serch hynny wedi mynegi ei siom nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gosod llawr ariannu a fyddai wedi golygu na fyddai'r un cyngor wedi derbyn cynnydd o lai na 4% (3.8% oedd cynnydd Ynys Môn). Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r buddsoddiad ychwanegol arfaethedig yn y Gwasanaethau Oedolion i gwrdd â'r cynnydd yn y galw ac yn cefnogi diogelu cyllidebau ysgolion drwy beidio â gweithredu toriad o £800k yng nghyllidebau datganoledig ysgolion a ohiriwyd o 2019/20. Roedd y Pwyllgor hefyd yn cefnogi gweithredu'r arbedion a nodwyd ac eithrio cynyddu ffioedd parcio canol tref (teimlwyd y byddai hynny'n wrthgynhyrchiol o safbwynt economaidd), er ei fod yn ffafrio dileu'r gyfradd 50c. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y risgiau i Gyllideb 2020/21, yn arbennig mewn perthynas â dyfarniad cyflog staff a'r galw am wasanaethau ac, ar y sail honno, argymhellodd gynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth a gyflwynwyd a'r adroddiad gan Sgriwtini. Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid, gan ei fod yn rhan o drafodaethau Sgriwtini yn y cyfarfod ar 27 Chwefror, roedd yn fodlon derbyn argymhellion Sgriwtini o ran peidio â chynyddu ffioedd parcio mewn meysydd parcio canol tref a dileu'r raddfa 50c, ond na allai gefnogi cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor oherwydd y credai y byddai'n hynny'n ormod i'w ofyn gan drigolion Ynys Môn, yn arbennig ar ôl cynnydd o 9.5% yn y Dreth Gyngor y llynedd. Felly, cynigiodd gyllideb refeniw net o £142.146m ar gyfer 2020/21 a chynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor fyddai'n golygu cynyddu Treth Gyngor Band D i £1,304.73, sef cynnydd o £56.16. Wrth gefnogi'r cynnig, ychwanegodd y Pwyllgor Gwaith y byddai'n fuddiol petai Llywodraeth Cymru, yr Undebau a Chyflogwyr yn cynnal trafodaethau ynghylch tâl cyn i gyllidebau gael eu gosod fel bod cynghorau'n gwybod erbyn diwedd mis Ionawr bob blwyddyn beth fydd y dyfarniad cyflog a bod ganddynt fwy o sicrwydd wrth gynllunio ar gyfer cynnydd mewn cyflogau. Byddai hynny'n cael gwared â'r risg i'r gyllideb o ganlyniad i ddiffyg sicrwydd ynghylch y dyfarniad cyflog. Awgrymwyd hefyd, oherwydd y gofyn cyfreithiol ar gynghorau i lunio cyllideb gytbwys, y dylid gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried ariannu ymrwymiadau/pwysau ar gostau ychwanegol y mae cynghorau'n gorfod eu hysgwyddo ond nad ydynt yn gallu dylanwadu arnynt.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb ac ystyried yr atborth a gafwyd ynddynt fel yr amlinellir yn Adran 2, Atodiad 1 ac yn Atodiad 2.**
- **Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor gan gynnwys y cyllid diwygiedig mewn ymateb i'r pwysau ar y gyllideb a'r arbedion arfaethedig fel y**

**dangosir nhw yn Adran 8, Atodiad 1 ac yn Atodiad 3 ac eithrio cynyddu ffioedd parcio ceir mewn safleoedd trefol a fydd yn aros yr un fath heblaw am y raddfa 50c a ddiddymir gan wneud isafswm cost o £1.**

- **Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor fod yn gweithio i sicrhau bod o leiaf £7.1m yn y balansau cyffredinol.**
- **Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon a wnaed fel y cânt eu hamlinellu yn Adran 6, Atodiad 1.**
- **Argymell cyllideb net ar gyfer y Cyngor Sir o £142.146m a chynnydd yn lefel y Dreth Gyngor felly o 4.5%, (£56.16 – Band D), gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol, yn cynnwys y Praeseptau i Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Cymuned, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 10 Mawrth, 2020.**
- **Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau a all fod yn angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor.**
- **Cytuno y bydd unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau a arweinir gan y galw yn ystod y flwyddyn ariannol yn gallu tynnu ar gyllid o'r gyllideb gyffredinol ar gyfer digwyddiadau annisgwyl.**
- **Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb ar gyfer digwyddiadau annisgwyl wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn.**
- **Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 y pŵer i ryddhau hyd at £50k o'r gronfa digwyddiadau annisgwyl ar gyfer unrhyw un eitem. Ni chaniateir cymeradwyo unrhyw eitem dros £50k heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Gwaith.**
- **Cymeradwyo bod y Premiwm Treth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn parhau i fod yn 35% ac yn parhau i fod yn 100% ar gyfer tai gwag.**

## 13. STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2020/21 I 2022/23

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21 i 2022/23.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod Côd Darbodus diwygiedig gan CIPFA, Medi 2017, wedi cyflwyno'r gofyniad ar bob awdurdod i gynhyrchu strategaeth gyfalaf sy'n gosod allan y cyd-destun tymor hir lle caiff penderfyniadau ar wariant a buddsoddiadau cyfalaf eu gwneud. Diben y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau yn gwneud penderfyniadau cyfalaf a buddsoddiadau yn unol ag amcanion y gwasanaethau a'u bod yn rhoi ystyriaeth wirioneddol i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb ariannol, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod y dogfennau a gyflwynwyd yn diweddaru'r Strategaeth Gyfalaf a gymeradwywyd yn 2019 ar gyfer y cyfnod 2019/20 a 2021/22 ac yn tanlinellu'r amcanion a'r egwyddorion sy'n sail i'r rhaglen gyfalaf, gan gynnwys buddsoddi yn flynyddol i wella a/neu amnewid asedau presennol; gwneud darpariaeth gyfalaf ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl; ariannu lefel o waith gwelliannau ffyrdd bob blwyddyn ac ailddatgan ymrwymiad y Cyngor i'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Hefyd, mae'r Strategaeth yn gosod allan yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor yn ystod y cyfnod dan sylw, sut y byddant yn cael eu defnyddio a'r cyfyngiadau/risgiau allai gael effaith ar gyflawni'r Strategaeth. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn un o'r prif ddogfennau strategol sy'n alinio â Chynllun y Cyngor; mae'r Strategaeth hefyd yn cydblethu â'r Datganiad Rheoli Trysorlys a'r Cynllun Ariannol Tymor Canol.

**Penderfynwyd argymell y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2020/21 i 2022/23 ar gyfer cymeradwyaeth y Cyngor Llawn.**

DRAFT

## 14. CYLLIDEB GYFALAF DERFYNOL ARFAETHEDIG AR GYFER 2020/21

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r gyllideb gyfalaf derfynol arfaethedig ar gyfer 2020/21.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod y gyllideb gyfalaf arfaethedig o £37.305m yn fuddsoddiad cyfalaf yn nyfodol Ynys Môn ac y dylid edrych arni yn y ffordd honno. Yn yr un modd â'r gyllideb refeniw, ymgynghorwyd ar y gyllideb gyfalaf ddrafft ar gyfer 2020/21 ac adlewyrchir y nifer fechan o sylwadau a dderbyniwyd yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod y gyllideb gyfalaf derfynol arfaethedig ar gyfer 2020/21 yr un fath â'r gyllideb ddrafft dros dro a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Ionawr 2020, ac eithrio diweddaru ffigyrau ar gyfer llithriadau o 2019/20.

Cyflwynodd y Cynghorydd Richard Owain Jones adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 27 Chwefror a chadarnhaodd, ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd yn y cyfarfod mewn perthynas â'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2020/21 gan gynnwys canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus a chadarnhad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 nad oedd unrhyw newid yn y gyllideb gyfalaf ac eithrio bod y ffigyrau wedi eu diweddaru i gynnwys llithriadau o 2019/20, penderfynodd y Pwyllgor ailddatgan ei fod yn argymell y gyllideb gyfalaf arfaethedig fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 13 Ionawr ac a ddiweddarwyd i gynnwys llithriadau.

**Penderfynwyd argymell y Rhaglen Gyfalaf Ganlynol ar gyfer 2020/21 i'r Cyngor Llawn -**

| | **£** |
|---|---|
| **Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2019/20** | **5,829** |
| **Adnewyddu/Amnewid Asedau** | **6,192** |
| **Prosiectau Cyfalaf Unwaith ac am Byth Newydd** | **2,174** |
| **Mân-ddaliadau a gyllidir o dderbyniadau cyfalaf** | **100** |
| **Ysgolion 21ain Ganrif** | **2,755** |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | **20,255** |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir Ar gyfer 2020/21** | **37,305** |

**Cyllidir Gan:**

| | |
|---|---|
| **Grant Cyfalaf Cyffredinol** | **2,165** |
| **Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol** | **2,364** |
| **Benthyca â Chefnogaeth a ddygwyd ymlaen** | **1,034** |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | **245** |
| **Arian Cyfalaf Wrth Gefn** | **500** |
| **Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion 21ain Ganrif** | **721** |
| **Benthyca Digefnogaeth Ysgolion 21ain Ganrif** | **1,145** |
| **Arian Wrth Gefn y CRT a gwared y flwyddyn** | **14,228** |
| **Benthyca Digefnogaeth CRT** | **250** |
| **CRT a ddygwyd ymlaen o 2019/20** | **3,117** |
| **Grantiau Allanol** | **5,782** |
| **Arian 2019/20 a ddygwyd ymlaen** | **5,754** |

DRAFT

**Cyfanswm Arian Cyfalaf 2020/21 37,305**

*Ar ran y Pwyllgor Gwaith, diolchodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio Cyllid i staff Gwasanaeth Cyllid y Cyngor am eu gwaith wrth baratoi'r adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn.*

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **23 Mawrth 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Ebrill – Tachwedd 2020;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

| **B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| **-** |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Ddim yn berthnasol. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Ebrill – Tachwedd 2020. |

| FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2020

Diweddarwyd 13 Mawrth 2020

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Ebrill - Tachwedd 2020** ar y tudalennau dilynol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2020

Diweddarwyd 13 Mawrth 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Ebrill 2020** | | | |
| 1 | **Polisi Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ("RIPA")**<br><br>Derbyn y polisi. | Deilydd Portffolio Corfforaethol | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Ebrill 2020 | |
| | | | | | | | |
| 2 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Ebrill 2020 | |
| 3 | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Ebrill 2020 | |
| | | | | **Mai 2020** | | | |
| 4 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mai 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2020

Diweddarwyd 13 Mawrth 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mehefin 2020** | | | |
| 5 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019/20**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2020 | |
| | | | | | | | |
| 6 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Mehefin 2020 | |
| 7 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Mehefin 2020 | |
| 8 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarfwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Mehefin 2020 | |

Tudalen 24

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2020

Diweddarwyd 13 Mawrth 2020

Tudalen 25

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Mehefin 2020 | |
| 10 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Mehefin 2020 | |
| 11 | **Codi Tâl Galw Gofal – Tenantiaid Tai Cyngor**<br><br>Cadarnhau'r cynigion ac awdurdod i ymgysylltu | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>1 Mehefin 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Mehefin 2020 | |
| | | | | **Gorffennaf 2020** | | | |
| 12 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Gorffennaf 2020 | |

* *Allwedd:*

*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*

*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2020

Diweddarwyd 13 Mawrth 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Medi 2020** | | | |
| 13 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |
| 14 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2020/21 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |
| 15 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarfwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |
| 16 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2020

Diweddarwyd 13 Mawrth 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2020/21 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr<br>Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini<br>Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |
| 18 | **Adroddiad Cynnydd o'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Alwyn Jones<br>Cyfarwyddwr<br>Gwasanaethau Cymdeithasol /<br>Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |
| **Hydref 2020** | | | | | | | |
| 19 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Hydref 2020 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2020

Diweddarwyd 13 Mawrth 2020

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tachwedd 2020** | | | | | | |
| 20 | **Cyllideb 2021/22 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>2 Tachwedd 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>9 Tachwedd 2020 | |
| | | | | | | | |
| 21 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | |
| 22 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2020/21 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | |

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2020

Diweddarwyd 13 Mawrth 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarfwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | |
| 24 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | |
| 25 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2020/21 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | |
| 26 | **Datganiad Polisi Trwyddedu** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan fod y polisi'n dod o fewn Fframwaith Polisi'r Cyngor. | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd dros dro<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | Cyngor Llawn<br><br>8 Rhagfyr 2020 |



** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **23 MAWRTH 2019** |
| **Pwnc / Testun:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 (2019/20)** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **CARYS EDWARDS** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**1.1** Hwn yw'r trydydd cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

*Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -*

**1.3.1** Mae meysydd sy'n tanberfformio yn cael eu cydnabod a'u rheoli a chymerir camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch4 a chreffir yn barhaus ar berfformiad ariannol gan roi pwyslais arbennig ar y gwasanaethau sydd dan bwysau oherwydd y galw cynyddol amdanynt, a'u cynorthwyo hwy'n arbennig, a hynny fel nad yw'r modd y maent yn rheoli perfformiad yn dirywio neu'n tanberfformio yn Ch4.

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

| B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Amherthnasol |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| DD – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad DPA yn erbyn 3 amcan Cynllyn y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.<br><br>Mae'r 3 amcan, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae mesur y DPA yn erbyn pob amcan yn dangos sut mae penderfyniadau'n cael effaith ar ein perfformiad cyfredol. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Gallai perfformiad rhai DPAau o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, ymhlith eraill. |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Amh. |
| 5 | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Amh. |

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Mnitro (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Ystyriwyd y Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch3: 2019/20 gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth, 2020.<br>Yn ystod ei ystyriaeth o'r adroddiad, cododd y Pwyllgor y materion a ganlyn:<br><br>1. Nododd yr aelodau mai perfformiad lleol yn ystod Ch3 oedd y gorau y bu ers i'r Cyngor gyflwyno'r fframwaith adrodd Cerdyn Sgorio Corfforaethol |

| | | |
|---|---|---|
| | | 2. Nodwyd dirywiad adroddedig mewn agweddau ar berfformiad ym maes Tai, Cynllunio, Hamdden, ac Gwasanaethau Oedolion yn ystod Chwarter 3 a chefnogodd y Pwyllgor y mesurau lliniaru a gyflwynwyd er mwyn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad dros y misoedd nesaf<br>3. Adroddwyd bod ymateb amserol i gwynion gan Gwasanaethau Cymdeithasol yn broblem yn Ch3 a mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch y dirywiad hwn mewn perfformiad<br>4. Mynegwyd pryderon gan y Pwyllgor ynghylch gostyngiad mewn perfformiad lleol yn erbyn Dangosydd Perfformiad 38 →% o'r gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. Cefnogodd y Pwyllgor y mesurau lliniaru sydd ar waith i gael effaith gadarnhaol ar berfformiad<br>6. Nododd y Pwyllgor hefyd ei bryder ynghylch rheoli gwariant mewn Gwasanaethau Oedolion oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau gofal<br><br>**Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd yn ogystal â'r eglurhad a ddarparwyd gan y Deiliaid Portffolio / swyddogion ar y pwyntiau a godwyd, penderfynwyd bod y Pwyllgor –**<br><br>• **Yn nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel yr amlinellir yn yr adroddiad - er mwyn mynd i'r afael â meysydd sy'n tanberfformio a Rheoli Cwynion yn y Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>• **Yn argymell y mesurau lliniaru ar gyfer y meysydd hynny a nodir yn yr adroddiad** |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A -  Cherdyn Sgorio Chwarter 3 |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2019/20 – Chwarter 2 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2019 ac a dderbyniwyd ganddo.) |

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 3 (2019/20)**

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Un o ddyletswyddau'r Cyngor o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau. Mae'n ofynnol i ni roi trefniadau ar waith i gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i gyflawni'r anghenion a'r blaenoriaethau hynny, ac er mwyn gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

1.2. Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol a'n hamcanion ar gyfer y cyfnod. Cyflawnir Cynllun y Cyngor trwy wireddu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol (DGF).

1.3. Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio fel rhan o'r broses i fonitro llwyddiant ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), sef cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau o ddydd i ddydd. Mae'r adroddiad hefyd yn dwyn sylw at unrhyw gamau lliniarol a nodwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i yrru a sicrhau gwelliannau.

1.4. Mae'r adroddiad monitro'r cerdyn sgorio wedi bod yn cael ei ddefnyddio ers 2013 ac mae datblygiad yr adroddiad hwn ymhlith gwelliannau eraill sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi cyfrannu at fframwaith perfformiad cyfredol y Cyngor. Mae'r dull rheoli perfformiad yma, sydd eisoes wedi gwreiddio i waith dydd i ddydd, wedi arwain at ddiwylliant gwella parhaus o fewn y cyngor, gwelliannau mewn perfformiad yn erbyn targedau, yn ogystal â gwelliant yn ein perfformiad yn genedlaethol.

1.5. Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa ar ddiwedd chwarter 3 a chaiff sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mawrth.

## 2. CYD-DESTUN

2.1. Cytunwyd yn y gweithdy a nodwyd eisoes bod angen gwneud rhai newidiadau i'r Cerdyn Sgorio eleni er mwyn sicrhau dull mwy strategol. I'r perwyl hwnnw, mae'r DPA sy'n monitro perfformiad wedi'u halinio â thri amcan strategol y Cyngor :

- Amcan 1 - Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, tra'n amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

2.2. Ni fydd modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob DPA ar y Cerdyn Sgorio bob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd y bydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (tymhorol) (Ch3).

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1. Mae'n galonogol nodi bod mwyafrif (71%) y dangosyddion sy'n cael eu monitro yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn targedau (Gwyrdd neu Felyn) fel ar ddiwedd Ch2. Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2. Mae presenoldeb yn y lle gwaith yn WYRDD yn erbyn ei darged ar ddiwedd Chwarter 3.

3.3. Mae'r strategaeth ddigidol yn parhau i weld y prif ddatblygiadau'n datblygu yn ystod Ch3 lle mae'r rhan fwyaf o'r dangosyddion o dan yr is-bennawd 'newid i wasanaeth digidol' yn gweld tuedd ar i fyny o'i gymharu â Ch3 yn 2018/19 lle mae pob un o'r dangosyddion heblaw am un (nifer yr ymweliadau â gwefan y Cyngor) yn dangos cynnydd, er y rhagwelir y dangosydd hwn hefyd yn cynyddu yn Ch4 oherwydd yr ymgynghoriadau a gynhelir ar hyn o bryd ar Foderneiddio Ysgolion a'r Gyllideb. Mae nifer y taliadau dros y we ac ar y ffôn (eitemau 12 + 13) wedi gweld cynnydd o dros 2700 o daliadau o gymharu â'r un cyfnod yn 2018/19. Fel yr esboniwyd yn flaenorol, mae hyn yn gadarnhaol gan fod astudiaethau a gynhaliwyd gan Socitm (Y Gymdeithas ar gyfer Arloesi, Technoleg a Moderneiddio) yn dangos bod costau trafodion digidol yn is na chostau cyswllt wyneb yn wyneb.

3.4. Fel yr adroddwyd y tro diwethaf, nid oes achos i bryderu gyda'r is-bennawd 'siarter gwasanaeth cwsmer' lle mae mwyafrif (75%) y dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn targedau. Yr unig ddangosydd sy'n GOCH yn erbyn y targed yw eitem 04b – canran y cwynion ysgrifenedig yr ymatebodd y Gwasanaethau Cymdeithasol iddynt o fewn 15 diwrnod. Trafodwyd 29 o'r 31 (94%) o gwynion gyda'r achwynydd o fewn yr amserlen ac ymatebwyd yn ysgrifenedig i 20 o'r 31 o gwynion (65%) o fewn yr amserlen.

3.5. Mae rhai o'r gwersi a ddysgwyd o gwynion a gadarnhawyd yn cynnwys:

- Mae angen cydgysylltu mewnol pan fydd ymholiad yn ymwneud â gwasanaethau eraill,
- Mae angen adolygu'r broses o wneud addasiadau neu ddileu dyledion ac mae angen cydnabod a chofnodi cwynion,
- Angen rhoi system ar waith i gwmnïau bysus roi gwybod i'r Cyngor am unrhyw broblemau gyda bysus ysgol.

3.6. Ar hyn o bryd mae'r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld, ar sail y sefyllfa ariannol ar ddiwedd y trydydd chwarter, y bydd gorwariant o £1.246m yng nghyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2020. Disgwylir gorwariant o £1.096m yn y cyllidebau gwasanaeth a rhagwelir y bydd cyllid corfforaethol yn gorwario £0.008m. Disgwylir i'r incwm o'r Dreth Gyngor safonol fod £0.142m yn is na'r gyllideb. Y duedd hanesyddol a welwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf fu tanwariannau / gwargedion sylweddol yn y meysydd Cyllid Corfforaethol a'r Dreth Gyngor a oedd yn helpu i leihau gorwariant mewn costau gwasanaeth. Yn anffodus, ar gyfer 2019/20 mae'r cyllidebau hyn hefyd dan bwysau ac ni fyddant ar gael i ariannu gorwariant mewn gwasanaethau.

3.7. Mae cyllidebau'r Gwasanaeth Oedolion dan bwysau sylweddol oherwydd y galw cynyddol ac yn sgil trosglwyddo lleoliad costus o'r Gwasanaethau Plant. Mae’r galw cynyddol hwn yn rhywbeth y gellir ei weld ar sail Cymru a’r DU oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio.

3.8. Y patrwm arferol yw bod y sefyllfa alldro derfynol yn well na’r amcangyfrif yn yr ychydig chwarteri cyntaf, ond, pe bai'r gorwariant a ragwelir yn digwydd, byddai'n cael ei ariannu o falansau cyffredinol y Cyngor a fyddai'n gostwng i £ 5.035m.

3.9 Mae'r gostyngiad hwn yn gwanio sefyllfa ariannol y Cyngor ond yn cyfiawnhau'r penderfyniad i beidio â defnyddio balansau cyffredinol i ariannu rhan o gyllideb 2019/20. ’Roedd y Pwyllgor Gwaith yn flaenorol wedi cytuno i gyflwyno Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer Gwasanaethau lle caniateir i unrhyw wasanaeth sydd â thanwariant ar ddiwedd y flwyddyn gadw hyd at 2.5% o'u cyllideb net flynyddol neu £75k (p’un bynnag sydd uchaf) i’w ailfuddsoddi yn eu gwasanaeth er mwyn gwella gwytnwch y gwasanaeth i’r dyfodol. Yn seiliedig ar y sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 3, byddai hyn yn arwain at wasanaethau yn cadw £0.427m, gan ostwng y gronfa wrth gefn gyffredinol i £4.608k. Mae hyn yn llawer is na’r isafswm a gymeradwywyd ar gyfer balans y gronfa wrth gefn gyffredinol, sef £6.7m fel y cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019.

3.10. Gellir gweld mwy o wybodaeth am reolaeth ariannol yn yr 'Adroddiad Monitro ar y Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 3 ' a fydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth.

3.11. Yr hyn y mae hyn yn ei ddangos felly yw'r sicrwydd rhesymol y gellir ei ddarparu, trwy ddefnyddio'r dadansoddiad o’r cardiau sgorio, fod gweithgareddau'r Cyngor o ddydd i ddydd o ran rheoli ei bobl, ei gyllid a’i wasanaethu i’w gwsmeriaid yn cwrdd â’r disgwyliadau i safon sy'n briodol ac y cytunwyd arni gan Aelodau. Adlewyrchir hyn hefyd yn y ffaith bod y dangosyddion yn y maes rheoli perfformiad hefyd yn perfformio'n dda.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1. Ar ddiwedd Ch3 mae'n galonogol nodi bod mwyafrif helaeth (85%) y dangosyddion yn parhau i berfformio'n uwch na’u targedau neu o fewn 5% ohonynt. Mae hyn unwaith eto’n cymharu'n ffafriol â’r perfformiad a welwyd yn hanner cyntaf y flwyddyn ariannol ac yn Chwarter 3 yn 2018 /19. Fodd bynnag, ‘rydym yn nodi bod pum dangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau ac amlygwyd y rhain yn Goch neu’n Ambr yn y Cerdyn Sgorio .

4.2. Mae'r perfformiad ar gyfer **Amcan 1** ar ddiwedd Ch3 wedi bod yn dda gan mai dim ond dau ddangosydd sy'n tanberfformio ar hyn o bryd yn erbyn ei amcan, sef un yn fwy nag yn Chwarter 2. Mae hyn yn cyfateb i 17% o’r 12 DP a gafodd eu monitro yn y chwarter hwn.

- Dangosydd 8 - Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden – sy’n dangos yn AMBR gyda pherfformiad o 385k o ymweliadau yn erbyn targed o 396k o ymweliadau. Mae hyn 19k yn llai na’r 404k a welwyd yn Ch3 2018/19, ond mae'n

parhau i fod 21k yn uwch na'r 364k a welwyd yn Ch3 2017/18.

Mae nifer yr ymweliadau wedi bod yn is eleni o gymharu â pherfformiad yn 2018/19, ond roedd honno'n flwyddyn arbennig o brysur o'i chymharu â'r 5 mlynedd flaenorol. 'Roedd y targed a osodwyd ar gyfer eleni yn seiliedig ar berfformiad prysur yn 2018/19. Oherwydd rhywfaint o waith cynnal a chadw ac uwchraddio hanfodol ar y canolfannau hamdden, ni fu'n bosib cyrraedd yr targedau arfaethedig hyd yma eleni. Fodd bynnag, mae nifer y taliadau debyd uniongyrchol wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf, a thrwy hynny yn sicrhau bod llif incwm cyson yn cael ei dderbyn pan nad yw nifer yr ymwelwyr yn cyrraedd targedau.

Disgwylir gweld cynnydd yn y ffigyrau am y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth a ddylai arwain at berfformiad sy'n agosach at y targed. Fodd bynnag, bydd gwaith uwchraddio ar ystafell ffitrwydd Plas Arthur, y neuadd chwaraeon yng Nghanolfan Hamdden Caergybi a'r gwaith i atgyweirio difrod a achoswyd gan storm Ciara yng Nghanolfan Hamdden David Hughes yn cael effaith ar berfformiad yn Ch4.

Yn Ch4 byddwn yn parhau i hyrwyddo'r gweithgareddau sydd ar gael yn ein Canolfannau Hamdden trwy MonActif yn ogystal â sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cael eu cofnodi'n gywir ar y systemau cyfrifiadurol electronig.

- Dangosydd 17 - Gwasanaethau Landlord: Nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau gwaith trwsio - sy'n dangos yn GOCH gyda pherfformiad o 15.49 diwrnod yn erbyn targed o 12 diwrnod . Mae hyn yn uwch na'r 9.95 diwrnod a welwyd yn Ch3 2018/19 a'r 15.14 diwrnod a welwyd ar ddiwedd Ch2.

  Fel yr eglurwyd yn yr adroddiad ar chwarter 2, effeithiwyd ar y dangosydd hwn gan newid yn y Polisi Atgyweirio a Chynnal a Chadw ym mis Hydref 2018. Erbyn hyn, blaenoriaethir archebion gwaith i'w cwblhau o fewn 12 awr, 48 awr, 5 diwrnod, 20 diwrnod neu 3 mis yn dibynnu ar frys y gwaith. Yn flaenorol, gellid gosod archebion gwaith hefyd am 10 diwrnod a 15 diwrnod ond nid yw hynny'n opsiwn bellach.

  Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Tai yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn a gweithredu yn ôl yr angen gyda'r bwriad o wella'r perfformiad.

  Rydym yn falch o adrodd bod 94% o'r archebion gwaith wedi'u cwblhau ar amser mewn perthynas â'r Polisi ar gyfer Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw.

4.3. Roedd perfformiad yn erbyn y dangosyddion ar gyfer **Amcan 2** yn dangos mai dim ond 2 o'r 17 o ddangosyddion a gafodd eu monitro yn Ch2 (12 %) sy'n tanberfformio yn erbyn yr amcan ar hyn o bryd.

- Dangosydd 19 – Nifer y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty tra'n aros am ofal cymdeithasol am bob 1000 o'r boblogaeth 75+ oed. Mae'r dangosydd hwn yn GOCH, sef 6 yn erbyn targed o 3. Mae'r perfformiad hwn yn debyg i'r 5.6 a welwyd yn Ch3 2018/19.

  Mae ein heriau o ran perfformiad ail-alluogi wedi dod yn gliriach ers i ni weithredu ein contractau gofal cartref yn yr ardal. Yn gyffredinol, mae'r contractau hynny'n

cefnogi pobl i gael eu rhyddhau'n gyflym pan fyddant wedi sefydlu pecynnau ar waith. Fodd bynnag, oherwydd y pwysau o sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth ail-alluogi i bawb sy'n newydd i wasanaethau, rydym ar hyn o bryd yn ei chael hi'n anodd sicrhau capasiti digonol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r ddau ohonom yn anelu at sicrhau bod y rhai sy'n derbyn ail-alluogi yn gofyn amdano mewn gwirionedd, a bod ein gwasanaeth yn gweithio i symud unigolion pan fyddant yn cael y cyfnod ailgyflenwi wedi'i gwblhau ar yr adeg iawn.

Mae'r gallu i gefnogi'r rheini ag EMI (Salwch Meddwl yr Henoed) yn y sector preswyl a nyrsio hefyd wedi cyfrannu at y darlun cyffredinol hwn.

'Rydym yn parhau i gryfhau ein partneriaeth â BIPBC i hwyluso rhyddhau pobl yn brydlon o ysbytai, gan roi sylw arbennig i'n Hysbytai Cymunedol. Yn ogystal, byddwn yn adolygu ein prosesau mewnol trwy gael cyfarfodydd wythnosol gyda'n darparwr ailalluogi i sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau o'r holl ysbytai mewn dull amserol.

- Dangosydd 36 - Gwasanaethau Landlord: Mae'r dangosydd ar gyfer canran y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo'n wag yn dangos yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda 1.55 % wedi'i golli yn erbyn targed o 1.15%.

  Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y dangosydd hwn a dangosydd 35 ar y Cerdyn Sgorio sydd wedi gwella yn y ddau chwarter diwethaf, sef nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i osod unedau y gellir eu gosod. Cafodd perfformiad gwael y dangosydd hwnnw yn Ch1 effaith ar y DPA hwn ac ni fu'n bosib crafangu'n ôl cymaint ag y gobeithiwyd.

  Byddwn yn parhau i weithredu'r broses symlach newydd a nodwyd yn Ch1 i wella perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn.

4.4. Mae'r dangosyddion i fonitro **Amcan 3** hefyd wedi perfformio'n dda yn Ch3, ond mae un dangosydd o'r saith (14%) a gafodd eu monitro ar gyfer yr amcan hwn wedi tanberfformio yn erbyn y targed.

- Dangosydd 43 - Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt cyn pen 84 diwrnod – sy'n dangos yn AMBR gyda pherfformiad o 69% yn erbyn targed o 80%. Mae hwn yn ddangosydd newydd ar gyfer y Cerdyn Sgorio eleni. 'Roedd perfformiad y dangosydd hwn yn 17% yn ystod Ch4 2018/19 a 55% ar ddiwedd Ch1 a 69% ar ddiwedd Chwarter 2.

  Mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud o ystyried y llwyth gwaith oedd wedi cronni ac mae'r perfformiad cyfredol yn dangos cynnydd sylweddol wrth i brosesau newydd ddechrau gwreiddio ac yn sgil gwella capasiti ac arbenigedd ac wrth i'r llwyth gwaith gael ei glirio. Rhagwelir y bydd y gwelliant hwn yn parhau dros weddill y flwyddyn ariannol ac y dechreuir o fan cychwyn gwell yn 2020/21.

4.5. Yn gyffredinol, mae'r perfformiad yn Ch3 yn cymharu'n ffafriol â'r perfformiad a welwyd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ac mae'n galonogol bod 86% o

ddangosyddion perfformiad yn parhau i berfformio'n uwch na'r targed (Gwyrdd) neu o fewn 5% iddynt (Melyn).

## 5. ARGYMHELLION

5.1. Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd hynny y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -

5.1.1. Mae meysydd sy'n tanberfformio yn cael eu cydnabod a'u rheoli a chymerir camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch4 a chreffir yn barhaus ar berfformiad ariannol gan roi pwyslais arbennig ar y gwasanaethau sydd dan bwysau oherwydd y galw cynyddol amdanynt, a'u cynorthwyo hwy'n arbennig, a hynny fel nad yw'r modd y maent yn rheoli perfformiad yn dirywio neu'n tanberfformio yn Ch4 .

5.2. Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q3 2019/20

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed Ch/ Q Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 18/19 Result | Canlyniad 17/18 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | Gwyrdd / Green | ↑ | 94.60% | 93.90% | 93.90% | 94.20% | 93.90% |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3) | Melyn / Yellow | ↓ | 91.42% | 92.70% | 92.70% | 92.70% | 93.30% |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | 1.10% | 4.20% |
| 4) Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 (blynyddol) (Ch3) | Melyn / Yellow | - | 345.4 | 349 | 349 | 349.1 | 335.9 |
| 5) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | 0.883 | 72.60% |
| 6) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | 0.65 | 63.70% |
| 7) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch3) | Gwyrdd / Green | - | 75% | 75% | 75% | - | - |
| 8) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Ambr / Amber | ↓ | 386k | 396k | - | 553k | 508k |
| 9) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98% | 95% | 95% | 98% | 98.00% |
| 10) Canran y busnesau risg uchel oedd yn agored i ymchwiliadau wedi'u trefnu a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | 96% | 90% | 90% | - | - |
| 11) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↓ | 74% | 50% | 50% | 70% | - |
| 12) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↓ | 84% | 80% | 80% | 83% | - |
| 13) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 88 | 56 | 75 | 78 | 75 |
| 14) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | ↑ | 3 | 3 | 4 | 9 | 4 |
| 15) Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | - | - |
| 16) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 100% | 100% | 100% | - |
| 17) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Coch / Red | ↓ | 15.49 | 12 | 12 | 13.63 | - |
| 18) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | - | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 19) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | Coch / Red | ↓ | 6 | 3 | 3 | 7.78 | 6.58 |
| 20) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 91.07% | 90.00% | 90.00% | 90.91% | 93.25% |
| 21) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 44.4% | 35.00% | 35.00% | 30.87% | 59.26% |
| 22) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 63.43% | 62.00% | 62.00% | 62.84% | 62.65% |
| 23) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↑ | 18.3 | 19 | 19 | 17.35 | 17.44 |
| 24) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 97.40% | 93.00% | 93% | 93.30% | 96.00% |
| 25) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Gwyrdd / Green | ↑ | 92.51% | 90.00% | 90.00% | 86.17% | 67.57% |
| 26) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↑ | 5.88% | 7.50% | 10% | 10% | 9.00% |
| 27) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | Melyn / Yellow | ↑ | 12.68% | 10.00% | 10% | 16..87% | - |
| 28) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 232 | 270 | 270 | 241 | 326.5 |
| 29) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↑ | 98.69% | 95% | 95% | 98% | - |
| 30) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | ↑ | 86.52% | 90.00% | 90.00% | 86.17% | 63.32% |
| 31) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 75.11% | 60.00% | 60.00% | - | - |
| 32) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 80.30% | 60.00% | 60.00% | 55% | 65.20% |
| 33) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | ↑ | 157.2 | 170 | 170 | 161.9 | 177 |
| 34) Penderfyniad wedi ei wneud ar Achosion Digartrefedd o fewn 56 diwrnod (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | - | - |
| 35) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Melyn / Yellow | ↓ | 22.4 | 21 | 21 | - | - |
| 36) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Coch / Red | ↑ | 1.55% | 1.15% | - | 1.3% | - |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 37) Canran y strydoedd sy'n lân | Melyn / Yellow | ↓ | 94.77% | 95% | 95% | 95.60% | 93.60% |
| 38) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Melyn / Yellow | ↓ | 68.02% | 70% | 70% | 69.86% | 72.20% |
| 39) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | ↓ | 0.99 | 1 | 1 | 0.2 | - |
| 40) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | ↑ | 154.84kg | 180kg | 240kg | 240kg | 236kg |
| 41) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Gwyrdd / Green | ↓ | 90% | 90% | 90% | 80.0% | 86.0% |
| 42) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | 67% | 65% | 65% | 74.0% | 47.0% |
| 43) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Ambr / Amber | ↓ | 69% | 80% | 80% | - | - |
| 44) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 2.90% | 2.90% | 0.029 |
| 45) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 3.80% | 3.80% | 0.042 |
| 46) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 8.70% | 8.70% | 0.089 |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol     Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn - o fewn 5% o'r targed     Gwyrdd - ar darged neu'n uwch

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q3 2019/20

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 18/19 Result | Canlyniad 17/18 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 53 | 57 | 76 | 71 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | ↑ | 8 | - | 8 | 9 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | ↓ | 19 | - | 27 | 28 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 92% | 80% | 93% | 92% |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | ↑ | 65% | 80% | 57% | - |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | ↓ | 31 | - | 44 | 51 |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | ↓ | 65 | - | 62 | 112 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | ↑ | 434 | - | 513 | 753 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Gwyrdd / Green | ↓ | 84% | 80% | 81% | 78% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | ↓ | 644 | - | 1052 | 919 |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | ↑ | 13k | - | 8.2k | - |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 5.7k | - | 4.7k | 2k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | ↑ | 10.1k | - | - | - |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | ↑ | 5.3k | - | - | - |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | ↑ | 32.5k | 29.5k | 29.5k | 25k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↓ | 566k | - | - | - |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 18/19 Result | Canlyniad 17/18 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2177 | | | - |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1230 | - | - | - |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↓ | 6.72 | 6.98 | - | - |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 2.89 | - | - | - |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 3.82 | - | - | - |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 5.72 | 6.87 | - | - |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd | - | - | 2.71 | - | - | - |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul | - | - | 3.01 | - | - | - |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Ambr / Amber | ↓ | 6.48 | 6.12 | - | - |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd | - | - | 2.76 | - | - | - |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd | - | - | 3.72 | - | - | - |
| 06) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 11% | 11% | - |
| 07) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 80% | 84% | 90.50% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Coch / Red | ↓ | £98,676,313 | £99,298,170 | 0.63% | - | - |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Coch / Red | ↑ | £135,210,190 | - | - | £136,456,183 | 0.92% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | - | - | £28,240,000 | - | - | £17,941,000 | -36.47% |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Ambr / Amber | ↓ | £2,561,000 | - | - | £2,133,800 | -16.68% |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↓ | -£8,078,896 | -£9,005,732 | 11.47% | - | - |
| 06) Swm a fenthycwyd | | → | £2,184,000 | - | - | £0 | 0.00% |
| 07) Chost benthyca | Gwyrdd / Green | → | £4,262,730 | - | - | £4,260,516 | -0.05% |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | Melyn / Yellow | ↓ | - | 82.55% | - | - | - |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | - | 99.10% | - | - | - |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | - | 98.90% | - | - | - |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 97.30% | - | - | - |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 99.84% | - | - | - |
| 13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | | ↑ | - | 99.63% | - | - | - |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **23 Mawrth 2020** |
| **Pwnc:** | **Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Carwyn Jones (Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Christian Branch (Pennaeth Dros Dro)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Christian Branch**<br>**01248 752491**<br>ChristianBranch@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

**Mabwysiadu'n ffurfiol y fersiwn ddrafft o'r Cynllun Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol.**

Bydd hyn yn golygu y bydd modd i'r Cyngor Sir fwrw ymlaen â rhaglen strwythuredig o fuddsoddiad yng nghyfleusterau hamdden yr Ynys i wella hyblygrwydd, hygyrchedd, apêl a pherfformiad y cyfryw gyfleusterau.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol am ddarparu a rheoli canolfannau hamdden Amlwch, David Hughes, Caergybi a Plas Arthur (yn ogystal â chyfleusterau hamdden eraill). Mae'r canolfannau'n boblogaidd ac yn cael eu defnyddio'n helaeth, gan ddenu dros 530,000 o ymweliadau yn 2018/19. Mae'r canolfannau'n cynnig myrdd o gyfleoedd ar gyfer gweithgaredd corfforol ac yn annog ffyrdd iach o fyw.

Mae Ynys Môn yn wynebu lefelau cynyddol o ordewdra a chlefyd siwgr, cyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau eraill sy'n gysylltiedig â diwylliant o anweithgarwch corfforol (yn enwedig ymysg pobl ifanc a'r henoed). Mae'r Cyngor Sir yn credu bod angen buddsoddi yn y ddarpariaeth hamdden i wella hyblygrwydd, hygyrchedd, apêl a pherfformiad yr holl gyfleusterau cyfredol er mwyn cynorthwyo i wella lles ac iechyd cwsmeriaid.

Mae canolfannau hamdden yr Ynys yn heneiddio (40+ oed) ac maent, erbyn hyn, yn asedau sy'n gynyddol aneffeithlon. Mae cwsmeriaid yn cydnabod bod angen buddsoddi yn y canolfannau hamdden - ac mae anghenion cwsmeriaid yn newid yn barhaus ac felly mae'n rhaid i'r canolfannau gynnig cyfleusterau sy'n gynyddol hyblyg er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer ystod o weithgareddau.

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Cyngor Sir wedi cynnal asesiadau helaeth i gael dealltwriaeth lawn o gyflwr ei bedair canolfan hamdden. Amcangyfrifwyd y byddai'n costio oddeutu £21M i adnewyddu'r canolfannau hamdden yn rhannol yn unol ag arferion adeiladu modern. Byddai'n costio oddeutu £37M i adeiladu tair canolfan hamdden newydd (Amlwch, Caergybi a Plas Arthur).

Felly mae'r Cynllun Hamdden newydd yn ddatrysiad fforddiadwy a realistig ar gyfer cynnal y canolfannau cyfredol yn y tymor byr i'r tymor canol (tan y bydd yr hinsawdd ariannol wedi gwella.)

Mae'r Cyngor yn bwriadu cadw'r pedair canolfan hamdden sydd ganddo. Mae'r galw cyfredol am sesiynau nofio, ynghyd â'r galw nad oes modd cwrdd ag ef am ddarpariaeth ffitrwydd, yn cyfiawnhau parhau i ddarparu pedair canolfan hamdden ar yr Ynys. Ni ellid cwrdd â'r galw gan lai na hynny o ganolfannau na, hyd yn oed, gan un ganolfan hamdden yng nghanol yr ynys.

Gweledigaeth y Cynllun yw '**Cynnal, gwella a darparu cyfleusterau hyblyg, hygyrch a fforddiadwy o ansawdd uchel i gwrdd ag anghenion llesiant Ynys Môn ar hyn o bryd ac i'r dyfodol'.**

Ei amcanion yw:

**Cynnal**
- Cadw'r holl ganolfannau hamdden sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd a diogelu'r cyfleusterau rhag dirywiad pellach.
- Sicrhau cydbwysedd priodol o gyfleusterau hamdden lle mae asesiadau o anghenion wedi nodi galw cyfredol, parhaus neu gudd (heb ei ddiwallu).

**Gwella:**
- Gweithredu rhaglen buddsoddi cyfalaf fforddiadwy i sicrhau bod yr holl gyfleusterau'n cael eu trawsnewid i fod yn fwy modern, ysbrydoledig ac addas ar gyfer y dyfodol (gan gynnwys gwelliannau TG a Hunanwasanaeth).
- Sicrhau bod cyfleusterau'n hygyrch ac yn hyblyg i annog cynnydd mewn lefelau cyfranogi.
- Annog mwy o gyfranogiad gan bob sector a grŵp oedran yn y gymuned.
- Integreiddio defnydd cymunedol o gyfleusterau hamdden ar safleoedd addysg mewn modd cydlynol, cydgysylltiedig a diogel (i wella'r ddarpariaeth gymunedol).

**Darparu:**
- Sicrhau bod digon o gyfleusterau ar gael fel y gall trigolion fod yn rhagweithiol o ran gweithgareddau chwaraeon ac i gefnogi effeithiau cadarnhaol ar iechyd.
- Cynnig cyfleusterau i leihau anweithgarwch corfforol a ffyrdd o fyw goddefol.
- Cefnogi hyfforddi a datblygu'r gweithlu i wella perfformiad a'r gwasanaeth i gwsmeriaid.
- Cefnogi gweithio mewn partneriaeth (lleol a rhanbarthol) er mwyn gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfleusterau chwaraeon presennol a rhannu sgiliau, arbenigedd ac adnoddau.

O ystyried sefyllfa ariannol y Cyngor Sir ar hyn o bryd, cynigir bod angen rhaglen fuddsoddi ar raddfa lai (sy'n canolbwyntio i ddechrau ar waith cynnal a chadw hanfodol) i gynnal y ddarpariaeth gyfredol ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol. Mae'r gwaith hwn yn werth oddeutu £1M (mae'r rhan fwyaf o'r arian eisoes wedi'i sicrhau). Heb fuddsoddiad priodol a gwaith cynnal a chadw, bydd rhedeg y canolfannau hamdden yn dod yn fwyfwy anodd oherwydd y byddent yn cau'n ddirybudd o achos methiannau yn y systemau trydanol, mecanyddol a gwresogi (gan arwain at golli incwm a risgiau uwch o ran iechyd a diogelwch).

Er mwyn sicrhau gwelliant gwirioneddol yn y cyfleusterau a gynigir ar hyn o bryd yn yr holl ganolfannau hamdden i wella eu hapêl, eu perfformiad, eu hygyrchedd a'u hyblygrwydd, mae'r Cyngor Sir wedi nodi cyfres o fuddsoddiadau cyfalaf i'w blaenoriaethu hefyd, gan gynnwys ystafelloedd ffitrwydd newydd, ystafelloedd newid a chaeau 3G. Byddai'r gwelliannau hyn yn costio

| |
|---|
| oddeutu £3M ac yn cynnig ystod o gyfleusterau amlbwrpas i gynyddu lefelau cyfranogiad a nifer yr ymwelwyr er mwyn sicrhau'r incwm mwyaf posib.<br><br>Er gwaethaf ffocws clir ar ganolfannau hamdden, mae'r Cynllun, lle bo hynny'n berthnasol, hefyd yn cyfeirio at yr angen i gynnal a gwella cyfleusterau hamdden eraill sy'n gwneud cyfraniad uniongyrchol a sylweddol at lesiant a bwrlwm cymunedol. Mae hyn yn dangos ymagwedd gorfforaethol integredig tuag at ddarparu cyfleusterau hamdden yn Ynys Môn |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith gan fod y Cynllun Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys ystyriaethau buddsoddi ariannol sylweddol (cyfalaf yn bennaf). |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae'r Cynllun Hamdden yn cefnogi gwireddu Cynllun y Cyngor gan ddangos ymagwedd integredig tuag at ofal iechyd ataliol yn Ynys Môn trwy sicrhau y darperir cyfleusterau hamdden cynaliadwy ac o ansawdd uchel fel y gall preswylwyr fyw bywydau egnïol ac i wella lles ac atal iechyd gwael. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Cyflwynwyd ceisiadau i sicrhau cyllid cyfalaf o amrywiaeth o ffynonellau cyllid mewnol ac allanol i wneud y gwaith cynnal a chadw hanfodol.<br><br>Manteisir ar y mecanweithiau canlynol hefyd (os a phan ddaw'r cyfle) i sicrhau cyllid pellach i gyflawni'r gwelliannau cyfalaf arfaethedig:<br><br>• Incwm a gynhyrchir gan y canolfannau hamdden.<br>• Cronfeydd wrth gefn y Swyddogaeth Hamdden.<br>• Cyllid cyfalaf allanol (o gronfeydd rhanbarthol a chenedlaethol).<br>• Benthyca darbodus y Cyngor Sir.<br>• Derbyniadau cyfalaf yn sgil cael gwared ar asedau'r Cyngor Sir.<br>• Cyfraniadau gan ddatblygwyr (taliadau A106) o ddatblygiadau newydd ar Ynys Môn.<br>• Unrhyw gyfraniadau budd cymunedol gwirfoddol sy'n deillio o brosiectau mawr (ynni) ar yr Ynys. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1**<br><br><br>**2**<br><br>**3** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol)<br><br>**Cyllid / Adran 151 (mandadol)**<br><br>**Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Paratowyd y Cynllun Hamdden drafft o dan gyfarwyddyd Bwrdd Prosiect sy'n cynnwys y Dirprwy Brif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, y Pennaeth AD a Thrawsnewid a chynrychiolydd o'r Adain Gyfreithiol. |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | Dim sylwadau |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Dim sylwadau |
| 7 | **Sgriwtini** | Aeth y fersiwn ddrafft o’r Cynllun gerbron y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 11 Mawrth, 2020. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Cynllun, ac yn sgil trafodaeth, fe benderfynwyd:<br>• bod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn argymell i’r Pwyllgor Gwaith i gymeradwyo’r Cynllun Hamdden, a’i gynnwys, ac yn fwy penodol y cynigion cynnal a chadw a gwella fel yr amlinellwyd ynddo. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Mae'r Cynllun Hamdden drafft wedi'i gyflwyno mewn sesiwn Briffio Aelodau a rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau a godwyd. |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Mae Chwaraeon Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ill dau wedi mynegi cefnogaeth i amcanion y Cynllun a’r buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig. |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Troseddau ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | Bydd cynigion y Cynllun ar gyfer gwaith cynnal a gwella’n cyfrannu at ostwng y defnydd o ynni a lefelau allyriadau carbon yn y canolfannau hamdden. |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Mae'r cynigion yn adlewyrchu'r angen i ystyried ac integreiddio’n llawn faterion fel diogelu, cyfle cyfartal a hyrwyddo'r Gymraeg |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Fersiwn ddrafft o’r Cynllun Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau’r Dyfodol. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Amherthnasol. |

## Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

# Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol

## Swyddogol

## Chwefror 2020

**Christian Branch**
**Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro –**
**Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**

**Mae cyfleusterau hamdden yn cynorthwyo i siapio lleoedd deniadol i fyw a gweithio ynddynt ac i ymweld â nhw, yn hyrwyddo mwynhad o ffyrdd iachach o fyw ac yn rhan annatod o les corfforol a meddyliol y gymuned.**

1) **Rhagarweiniad**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn gyfrifol am ddarparu a rheoli llawer o gyfleusterau hamdden ar Ynys Môn.

Mae'r ddarpariaeth gyfredol yn cynnwys, yn bennaf, Ganolfan Hamdden Amlwch, Canolfan Hamdden David Hughes, Canolfan Hamdden Caergybi a Chanolfan Hamdden Plas Arthur. Mae'r rhain yn gyfleusterau poblogaidd y gwneir defnydd helaeth ohonynt (wedi denu dros 530,000 o ymweliadau yn 2018/19), ac maent yn cynnig llawer o gyfleoedd ar gyfer gweithgaredd corfforol ac yn annog ffyrdd iach o fyw.

Mae’r Cyngor Sir yn credu bod angen buddsoddi yn y ddarpariaeth hamdden i wella hyblygrwydd, hygyrchedd, apêl a pherfformiad yr holl gyfleusterau. Bwriad y Cyngor Sir yw cadw pedair canolfan hamdden yr Ynys.

Er gwaethaf mai gwasanaethau dewisol yw’r rheini yn y maes hamdden ni ddylai hynny dynnu oddi ar werth cyfleusterau'r Cyngor Sir a’r cyfleoedd y maent yn eu cynnig i gymunedau'r Ynys. Mae Ynys Môn yn wynebu lefelau cynyddol o ordewdra a chlefyd siwgr, anhwylderau iechyd meddwl a chyflyrau eraill sy'n gysylltiedig â diwylliant o anactifedd (yn enwedig ymysg pobl ifanc a'r henoed). Mae canolfannau hamdden yn darparu cyfleusterau hanfodol i helpu i gefnogi poblogaeth sy’n iachach ac yn fwy heini.

Nod y Cynllun Hamdden hwn, sy'n alinio’n llwyr â Chynllun y Cyngor, yw dangos dull integredig o ymdrin â gofal iechyd ataliol yn Ynys Môn trwy sicrhau y darperir cyfleusterau hamdden cynaliadwy ac o ansawdd uchel fel y gall trigolion fyw bywydau egnïol ac i atal iechyd gwael a gwella llesiant.

Mae'r Cynllun yn nodi'r angen am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol i wella'r ddarpariaeth gyfredol. Mae'r Cyngor Sir hefyd yn cydnabod yr angen i fuddsoddi yn ei weithlu i gynorthwyo gyda chyflawni’r Cynllun - gan sicrhau eu bod wedi'u hyfforddi'n addas i ddarparu gwasanaeth cwsmer o ansawdd uchel a fedr fanteisio ar gyfleoedd i gynyddu’r incwm a gynhyrchir a gwella perfformiad.

Er gwaethaf ffocws clir ar ganolfannau hamdden, mae'r Cynllun, lle bo hynny'n berthnasol, hefyd yn cyfeirio at yr angen i gynnal a gwella cyfleusterau hamdden eraill sy'n gwneud cyfraniad uniongyrchol a sylweddol at lesiant ac egni cymunedol. Mae hyn yn dangos dull corfforaethol integredig o ddarparu cyfleusterau hamdden yn Ynys Môn.

Mae’r Cynllun hefyd yn ceisio alinio â gweledigaeth Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y Cyngor Sir a'r canlyniadau a'r buddion y disgwylir y byddant yn deillio ohoni. Bydd cyfleusterau ysbrydolgar, modern a chynhwysol yn yr ysgolion yn allweddol er mwyn ysgogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol am oes - yn ogystal â bod o fudd i gymunedau lleol.

## 2) Gweledigaeth CSYM ar gyfer y Ddarpariaeth Hamdden.

***Cynnal, gwella a darparu cyfleusterau o ansawdd uchel, hyblyg, hygyrch a fforddiadwy i gwrdd ag anghenion llesiant Ynys Môn yn awr ac i'r dyfodol.***

Mae angen Gweledigaeth i lywio blaenoriaethau CSYM - gan sicrhau y gellir gwneud defnydd effeithiol a phriodol o adnoddau yn awr ac i'r dyfodol, a hynny er mwyn sicrhau y gellir gwireddu'r canlyniad a ddymunir. Mae'r Cyngor Sir yn bwriadu cyflawni'r Weledigaeth hon trwy ganolbwyntio ar yr amcanion canlynol:

**a) Cynnal:**

- Cadw'r un nifer o ganolfannau hamdden ag sydd gennym ar hyn o bryd a diogelu cyfleusterau rhag dirywiad pellach.
- Sicrhau cydbwysedd priodol o gyfleusterau hamdden lle mae asesiadau o anghenion wedi dangos galw cyfredol, parhaus neu gudd (galw nad yw wedi ei ddiwallu).

**b) Gwella:**

- Cyflawni rhaglen fforddiadwy o fuddsoddiadau cyfalaf i sicrhau bod yr holl gyfleusterau'n cael eu trawsnewid i fod yn fwy modern, ysbrydolgar ac addas ar gyfer y dyfodol (gan gynnwys gwelliannau TG a Hunanwasanaeth).
- Sicrhau bod cyfleusterau'n hygyrch ac yn hyblyg i annog cynnydd mewn lefelau cyfranogi.
- Annog mwy o gyfranogiad gan bob sector a phobl o bob oed yn y gymuned.
- Integreiddio'r defnydd cymunedol o gyfleusterau hamdden ar safleoedd addysg mewn modd cydlynol, cydgysylltiedig a diogel (i wella'r ddarpariaeth gymunedol).

**c) Darparu:**

- Sicrhau bod digon o gyfleusterau ar gael i alluogi trigolion i fod yn rhagweithiol o ran gweithgareddau chwaraeon a chefnogi effeithiau cadarnhaol ar iechyd.
- Cynnig cyfleusterau i leihau anactifedd a ffyrdd o fyw goddefol.
- Cynorthwyo i hyfforddi a datblygu'r gweithlu i wella perfformiad a'r gwasanaeth i gwsmeriaid.
- Cefnogi gweithio mewn partneriaeth (lleol a rhanbarthol) fel y gellir gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfleusterau chwaraeon cyfredol a rhannu sgiliau, arbenigedd ac adnoddau.

3) **Yr heriau, y bygythiadau a'r cyfleon.**

Mae maint a natur yr heriau, y bygythiadau a'r cyfleon y mae CSYM yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn ddigon hysbys. Mae'r rheini sy'n benodol berthnasol i ganolfannau hamdden yr Ynys yn cynnwys:

**Heriau:**

a) Mae angen i'r Cyngor Sir leihau ei wariant, yn enwedig y gwariant ar wasanaethau dewisol.
b) Mae CSYM dan bwysau cynyddol i ddarparu gwell gwasanaethau, gyda llai o adnoddau.
c) Mae demograffeg yr Ynys yn newid, yn enwedig ei phroffil oed.
d) Mae daearyddiaeth a natur wledig Ynys Môn, ynghyd â'r lefelau isel o berchnogaeth car yn ei gwneud hi'n anodd teithio.
e) Mae anghenion a chwaeth cwsmeriaid yn newid yn barhaus - ac mae angen i'r canolfannau hamdden gynnig cyfleusterau hyblyg a fedr ddarparu ar gyfer gweithgareddau newydd (ond rhai sy'n fforddiadwy o fewn cyfyngiadau ariannol CSYM).
f) Uchelgais i leihau cost yr holl ddarpariaeth hamdden i CSYM i lefel sydd cyn agosed â phosib i £0.
g) Dim ond trwy raglen integredig o fuddsoddi i fynd i'r afael â systemau gwresogi aneconomaidd y gellir sicrhau gostyngiad yng nghostau rhedeg y canolfannau hamdden - ynghyd â gwelliant yn y cyfleusterau craidd.
h) Yr angen i rai ffrydiau incwm gefnogi cynaliadwyedd a dichonoldeb cyfleusterau eraill sy'n llai poblogaidd (i gynnal darpariaeth leol / gymunedol).
i) Mae cyflwr presennol y canolfannau hamdden yn atal y Cyngor Sir rhag ystyried y posibilrwydd o fodelau cyflawni amgen.

**Bygythiadau:**

a) Mae'r canolfannau hamdden yn asedau sy'n heneiddio (o leiaf 40 oed ), ac sy'n gynyddol aneffeithlon.
b) Heb fuddsoddiad a gwaith cynnal a chadw, bydd y canolfannau hamdden yn dod yn fwyfwy anodd eu gweithredu ac yn cau'n ddirybudd oherwydd bod systemau trydanol, mecanyddol a gwresogi yn torri i lawr (gan arwain at golli incwm a chynnydd mewn risgiau iechyd a diogelwch).
c) Mae cwsmeriaid yn cydnabod bod y canolfannau hamdden yn heneiddio ac angen buddsoddiad.
d) Cyfyngir ar sgôp CSYM i fuddsoddi oherwydd prinder cyllid cyfalaf (mewnol ac allanol), ynghyd â chyfyngiadau'r eithriad rhannol rhag talu TAW (bydd raid talu arian sylweddol yn ôl i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi os eir y tu hwnt i'r terfyn eithrio).
e) Ansicrwydd yn dilyn atal prosiect adeiladu gorsaf niwclear Wylfa Newydd a'r galwadau a'r effeithiau posib ar y ddarpariaeth hamdden yn ystod adeiladu a gweithredu'r orsaf.

**Cyfleon:**

a) Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i CSYM fynd ati i gynyddu lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden, yn ogystal â gwella iechyd corfforol a meddyliol trigolion.
b) Mae Canolfannau Hamdden yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni llawer o flaenoriaethau ac amcanion corfforaethol.
c) Mae Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y Cyngor Sir yn rhoi cyfle i integreiddio a / neu gydleoli canolfannau hamdden yn well gyda chyfleusterau addysg.
d) Angen manteisio ar lwyddiant rhyngwladol diweddar athletwyr Ynys Môn yng Ngemau'r Ynysoedd 2019 ac adeiladu arno - datblygu cyfleusterau yn benodol i alluogi a chefnogi cynnal y gemau yn Ynys Môn yn y dyfodol (gyda'r Ynys yn cael ei henwi fel yr ynys a ffefrir ar gyfer cynnal gemau 2025).
e) Y galw cyfredol am nofio ym mhob un o ddalgylchoedd y pyllau; ynghyd â'r galw cudd (heb ei ddiwallu) am ddarpariaeth ffitrwydd ar draws yr Ynys a darpariaeth nofio yn ne-ddwyrain Ynys Môn (yn seiliedig ar asesiadau annibynnol).

## 4) Egwyddorion

Wrth weithredu'r Cynllun hwn i gynnal a gwella ei ganolfannau hamdden, bydd CSYM yn glynu wrth yr egwyddorion canlynol:

a) Cefnogi gwelliant yn lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cwsmeriaid.
b) Darparu cyfleusterau hyblyg ac amlbwrpas sy'n ymateb i dueddiadau hamdden yn y dyfodol, anghenion newidiol y cwsmeriaid a'r cynnydd a ragwelir yn y galw.
c) Cyflwyno ystod o gyfleusterau hamdden o safon sy'n cynyddu cyfranogiad, y defnydd a wneir ohonynt a nifer yr ymwelwyr, a hynny er mwyn cynhyrchu cymaint o incwm â phosib.
d) Gostwng yr holl gostau refeniw i lefel fforddiadwy / gynaliadwy.
e) Dyhead i fod yn garbon niwtral trwy leihau'r galw am ynni, y defnydd o ynni ac allyriadau carbon.
f) Gwneud y mwyaf o fanteision technoleg i wella'r profiad i'r cwsmer.
g) Cefnogi cydleoli cyfleusterau sy'n bwysig i gymunedau cyfagos.
h) Cryfhau'r cysylltiadau gydag ysgolion lleol trwy fuddsoddi mewn cyfleusterau i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf.
i) Integreiddio'r angen am ddatblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, cyfle cyfartal, diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg.

5) **Cynnydd hyd yma**

Dros y 12 mis diwethaf, mae CSYM wedi cynnal asesiadau helaeth i gael dealltwriaeth lawn o gyflwr ei bedair canolfan hamdden.

Amcangyfrifwyd y byddai'n costio oddeutu £21M i adnewyddu'r canolfannau hamdden yn rhannol yn unol ag arferion adeiladu modern. Byddai costau adeiladu tair canolfan hamdden newydd (Amlwch, Caergybi a Plas Arthur) oddeutu £37M. Ystyrir y byddai'r ad-daliadau blynyddol ar unrhyw fenthyciadau cyfalaf y byddai'n rhaid wrthynt ar gyfer buddsoddiad ar y raddfa hon yn anfforddiadwy ac yn afrealistig o ystyried sefyllfa ariannol gyfredol y Cyngor Sir a'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y tymor canol.

Mae'r Cyngor Sir hefyd wedi cynnal asesiad o'r hyn y bydd cymunedau ei angen o ran darpariaethau hamdden a ffitrwydd yn awr ac i'r dyfodol; demograffeg cwsmeriaid; a'r tueddiadau cyfranogi ar hyn o bryd a'r lefelau cyfranogi posib yn y dyfodol er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio a darparu cyfleusterau i'r dyfodol.

Mae'r galw presennol am nofio, ynghyd â maint y galw cudd nad yw'n cael ei ddiwallu am ddarpariaeth ffitrwydd ar draws Ynys Môn yn cyfiawnhau parhau i ddarparu pedair canolfan hamdden ar yr Ynys. Ni ellid cwrdd â'r galwadau hyn yn briodol gan lai na hynny o ganolfannau, neu hyd yn oed un ganolfan hamdden yng nghanol yr ynys.

Ymgysylltwyd yn helaeth â rhanddeiliaid hefyd i gael barn ein cwsmeriaid a'n trigolion. Mae'r safbwyntiau hyn wedi'u hystyried yn llawn wrth baratoi'r Cynllun hwn. Mae atborth pwysig yn cynnwys:

- Mae'r mwyafrif o gwsmeriaid y canolfannau hamdden rhwng 35 a 54 oed.
- Caergybi yw'r ganolfan hamdden gyda'r nifer fwyaf o ddefnyddwyr rheolaidd.
- Ystafelloedd ffitrwydd yw'r cyfleusterau a ddefnyddir amlaf.
- Roedd 25% o'r ymatebwyr o'r farn bod y cyfleusterau o ansawdd gwael neu'n is na'r safon dderbyniol.
- Mae'r gwelliannau y gofynnir amdanynt fwyaf yn cynnwys cyfleusterau newid; lleoedd stiwdio; offer ffitrwydd; Caeau 3G; cyfleusterau plant; pyllau nofio a chaffis.

Tra'n datblygu'r Cynllun hwn, mae CSYM eisoes wedi gallu sicrhau rhywfaint o fuddsoddiad i gyflawni gwelliannau arwyddocaol (sydd wedi cael effaith gadarnhaol o ran nifer y cwsmeriaid, lefelau cyfranogiad a chynhyrchu incwm). Mae'r buddsoddiadau hyn yn cynnwys gosod ystafell ffitrwydd fodern newydd yng Nghaergybi, a darparu cae 3G maint llawn cyntaf yr Ynys yn Plas Arthur.

**6) Cynigion Cynnal**

O ystyried yr heriau ariannol y mae'r Cyngor Sir yn eu hwynebu, cynigir bod angen rhaglen fuddsoddi ar raddfa lai (gan ganolbwyntio i ddechrau ar waith cynnal a chadw hanfodol) i gynnal y ddarpariaeth gyfredol ar gyfer y tymor byr / canol (h.y. y 5-10 mlynedd nesaf). Dyluniwyd y strategaeth hon fel y gall CSYM barhau i ymateb i heriau parhaus y cyfnod o lymder, tra'n darparu cyfleusterau a chyfleoedd pwysig i gefnogi a gwella lles corfforol a meddyliol cymunedau'r Ynys.

Fel rhan o ddull CSYM o gynnal a chadw cyfleusterau, mae cyfleoedd ar gael ar hyn o bryd i wneud cais am lefelau cymedrol o gyllid allanol (tua £1M) i wella ffabrig, nodweddion ac effeithlonrwydd ynni pob canolfan hamdden. O ystyried eu hoed a'u cyflwr, rhagwelir y gallai materion cynnal a chadw eraill godi yn ystod y cyfnod o gyflawni'r Cynllun hwn.

| Canolfan Hamdden | Gwaith cynnal arfaethedig | Amcangyfrif o'r gost | Ffynhonnell gyllido rhagweledig | Amserlenni | Yr effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amlwch** | Boeler newydd a gwaith trwsio cysylltiedig i system awyru'r pwll | £283,000 | Cynllun Ailffitio (Rhan 1) (wedi ei gadarnhau) | 2020/21 | Gostyngiad mewn costau rhedeg<br><br>Gwelliant mewn effeithlonrwydd ynni |
| | Trwsio'r to a mesurau effeithlonrwydd ynni newydd. | £218,000 | Chynllun Ailffitio (Rhan 1) (wedi ei gadarnhau) a Cyllid Cyfalaf CSYM | 2020/21 | Gwelliant mewn effeithlonrwydd ynni |
| **David Hughes** | Trwsio llawr y dderbynfa | £12,000 | Cyllideb Cynnal a Chadw (CSYM) | 2020/21 | Risg is o ran Iechyd a Diogelwch |
| | Adnewyddu colofnau mynediad (sgwrio â thywod a gorchudd powdr newydd) | £10,000 | Cyllideb Cynnal a Chadw (CSYM) | 2020/21 | Gwelliannau strwythurol ac aesthetaidd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Caergybi** | Boeler newydd a gwaith trwsio cysylltiedig i system awyru'r pwll | £283,000 | Cynllun Ailffitio (Rhan 2) (disgwyl cadarnhad) | 2021/22 | Gostyngiad mewn costau rhedeg<br><br>Gwelliant mewn effeithlonrwydd ynni |
| | Mesurau effeithlonrwydd ynni newydd. | £84,000 | Chynllun Ailffitio (Rhan 1) (wedi ei gadarnhau) a Cyllid Cyfalaf CSYM | 2020/21 | Gwelliant mewn effeithlonrwydd ynni |
| **Plas Arthur** | Atgyweirio ffrâm ddur a tho'r ger y neuadd chwaraeon, a mesurau effeithlonrwydd ynni newydd | £177,000 | Chynllun Ailffitio (Rhan 1) (wedi ei gadarnhau) a Cyllid Cyfalaf CSYM | 2020/21 | Gwelliant mewn effeithlonrwydd ynni |

**7) Cynigion Gwella a Darpariaeth**

Er mwyn sicrhau gwelliant ystyrlon yng nghyfleusterau cyfredol pob canolfan hamdden i wella eu hapêl, eu perfformiad, eu hygyrchedd a'u hyblygrwydd (gan gefnogi ffitrwydd, iechyd a lles cymunedol), mae CSYM wedi nodi'r buddsoddiadau canlynol fel rhai a flaenoriaethir.

| Canolfan Hamdden | Y Buddsoddiad a gynigir | Amcangyfrif o'r gost | Ffynhonnell gyllido rhagweledig | Amserlenni | Yr effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amlwch** | Ystyried darpariaeth hamdden newydd fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion (gan gynnwys cae 3G newydd) | I'W GADARNHAU | I'W GADARNHAU | I'W GADARNHAU | Mwy o integreiddio a chydlynu cyfleusterau |
| | Adnewyddu'r ystafell ffitrwydd (i greu cyfleuster ffitrwydd modern a chynhwysol) | £100,000 | Cyflwyno ceisiadau i CSYM yn 2020 am gyllid cyfalaf a cheisiadau am gyllid cyfalaf allanol. | 2021 | Buddsoddiad i wella'r cynnig i gwsmeriaid<br><br>Incwm uwch<br><br>Mwy o gyfranogiad gan grwpiau targed (h.y. pobl dros 55 oed) |
| **David Hughes** | Cae 7 pob ochr 3G newydd yn lle'r cyrtiau tenis | £72,000 | Grant Cydweithio wedi ei sicrhau (wedi ei gadarnhau) | Mawrth 2020 | Buddsoddiad i wella'r cynnig i gwsmeriaid<br><br>Incwm uwch |
| | Adnewyddu'r ystafell ffitrwydd (i greu cyfleuster ffitrwydd modern a chynhwysol) | £100,000 | Cyflwyno ceisiadau i CSYM yn 2021 am gyllid cyfalaf a cheisiadau am gyllid cyfalaf allanol | 2022 | Buddsoddiad i wella'r cynnig i gwsmeriaid<br><br>Incwm uwch<br><br>Mwy o gyfranogiad gan grwpiau targed (h.y. pobl dros 55 oed) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Caergybi** | Pentref newid newydd | £400,000 | I'W GADARNHAU | I'W GADARNHAU | Mwy o foddhad cwsmeriaid<br><br>Gwell trefniadau diogelu |
| **Plas Arthur** | Ail-leoli'r caffi; man chwarae meddal newydd, derbynfa well a pentref newid newydd | £1,500,000 - £2,000,000 | I'W GADARNHAU | I'W GADARNHAU | Buddsoddiad i wella'r cynnig i gwsmeriaid<br><br>Incwm uwch<br><br>Integreiddio cyfleusterau yn well a gwell trefniadau diogelu |
| | Adnewyddu'r ystafell ffitrwydd (i greu cyfleuster ffitrwydd modern a chynhwysol) | £130,000 | Sicrhawyd £90,000 o gyllid cyfalaf gan CSYM & Grant o £40,000 o'r Gronfa Lleoedd ar gyfer Chwaraeon (wedi ei gadarnhau) | Mawrth 2020 | Buddsoddiad i wella'r cynnig i gwsmeriaid<br><br>Incwm uwch<br><br>Mwy o gyfranogiad gan grwpiau targed (h.y. pobl dros 55 oed) |

**Safleoedd eraill sy’n gysylltiedig â Hamdden**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Caergybi** | Cae 3G newydd | I’W GADARNHAU | I’W GADARNHAU | I’W GADARNHAU | Buddsoddiad i wella’r cynnig i gwsmeriaid<br><br>Integreiddio cyfleusterau yn well.<br><br>Cynnydd ym moddhad cwsmeriaid |

**8) Cyflawni'r Cynllun**

I gyflawni'r Cynllun, bydd CSYM yn ceisio manteisio ar y canlynol (os a phan ddaw'r cyfle):

a) Incwm a gynhyrchir gan y canolfannau hamdden.
b) Cronfeydd wrth gefn y Swyddogaeth Hamdden.
c) Cyllid cyfalaf allanol (o gronfeydd rhanbarthol a chenedlaethol).
d) Benthyca darbodus y Cyngor Sir.
e) Derbyniadau cyfalaf yn sgil cael gwared ar asedau'r Cyngor Sir.
f) Cyfraniadau gan ddatblygwyr (taliadau A106) o ddatblygiadau newydd ar Ynys Môn.
g) Unrhyw gyfraniadau budd cymunedol gwirfoddol sy'n deillio o brosiectau mawr (ynni) ar yr Ynys.

**9) Rheoli Cyfleusterau Hamdden**

Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd y Cyngor Sir fydd yn parhau i reoli canolfannau hamdden y Cyngor Sir.

Bydd y Gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu â Chyfadrannau eraill y Cyngor Sir i gefnogi rheoli ei gyfleusterau.

Aseswyd modelau cyflawni amgen, ond ni nodwyd unrhyw fodel sy'n cwrdd ag anghenion y Cyngor Sir neu'n diogelu'r darpariaeth hamdden er budd cymunedau'r Ynys.

**10) Monitro'r Cynllun**

Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn o dan gyfarwyddyd y Bwrdd Prosiect cyfredol.

Bydd yr adolygiad yn gwerthuso cynnydd mewn perthynas â Gweledigaeth y Cynllun - yn enwedig o ran gweithgareddau, cyflawniadau, cyfleoedd cyllido posib ac aliniad â Chynllun y Cyngor am y cyfnod 2017-22.

Adroddir ar gynnydd i Fwrdd Rhaglen Drawsnewid y Cyngor Sir ar gyfer Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn** |
| **Dyddiad:** | **09.03.2020 / 11.03.2020 / 23.03.2020 / 19.05.2020** |
| **Pwnc:** | **Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas**<br>**Yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Mared Yaxley**<br>**01248 752566**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Nid yw hwn yn fater sy'n ymwneud â ward benodol.** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

Pwrpas yr adroddiad:

1. Ceisio barn y Pwyllgorau Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith, cyn i'r Cyngor benderfynu a ddylid mabwysiadu'r Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini sydd ynghlwm yn **Atodiad 1** i'r adroddiad hwn.

Cefndir:

2. Yn unol ag adran 62 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i Gynghorau Sir sicrhau bod y rheini sy'n byw neu'n gweithio yn eu hardal yn gallu cyfrannu eu safbwyntiau ar unrhyw fater sydd i'w ystyried gan Bwyllgor Sgriwtini.

3. Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) wedi ymrwymo i'r egwyddor hon. Er bod trefniadau eisoes i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngwaith y Pwyllgorau Sgriwtini, nod cyflwyno'r Protocol Siarad Cyhoeddus yw darparu proses eglur a hwylus i'r cyhoedd fedru rhannu eu barn gyda'r Pwyllgorau Sgriwtini fel rhan o drafodaethau'r pwyllgorau.

4. Nid yw'r trefniant presennol ar gyfer siarad cyhoeddus yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Sgriwtini wedi ei nodi'n dryloyw mewn dogfen syml. Bydd cyflwyno'r Protocol Siarad

Cyhoeddus yn cynorthwyo'r cyhoedd i ddeall y broses y mae angen ei dilyn, gan sicrhau y mabwysiedir trefn gyson sy'n rheoli disgwyliadau'r cyhoedd mewn perthynas â'u cyfraniad.

Cyffredinol:

5. Bydd swyddogion yn gwneud y gwaith gweinyddol o dan y Protocol.

6. Mae datblygiadau deddfwriaethol diweddar wedi pwysleisio gofyniad cyfreithiol i wrando ar lais y cyhoedd a bod cynnwys y cyhoedd yn hanfodol pan fydd Cynghorau'n gwneud penderfyniadau.

    6.1 O dan y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (a gyhoeddwyd ar 18/11/2019) y rhagwelir y bydd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol yn ystod Haf 2020, mae adran 46 yn cynnwys dyletswydd i annog pobl leol i gymryd rhan mewn llywodraeth leol. Mae paragraff 46 (1) yn nodi: “Rhaid i brif gyngor **annog pobl leol i gymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau’r cyngor** (gan gynnwys gwneud penderfyniadau mewn partneriaeth neu ar y cyd ag unrhyw berson arall)." (fy mhwyslais i).

    6.2 Mae adran 47 o'r Bil yn amlinellu dyletswydd ar Gynghorau i baratoi “strategaeth gyfranogi” gyda'r nod o'i gwneud hi'n haws i’r cyhoedd ddeall sut mae llywodraeth leol yn gweithredu, sut mae'n gwneud penderfyniadau a **sut y gall pobl leol** ddilyn achos, **fynegi barn**, a chael sicrwydd bod y farn honno wedi ei chymryd i ystyriaeth” (fy mhwyslais i – papur Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y Bil). Mae paragraff 47 (2) (e) yn nodi: “Rhaid i strategaeth cyfranogiad cyhoeddus, yn benodol, fynd i’r afael â threfniadau a wnaed, neu sydd i’w gwneud, i ddibenion dyletswydd y cyngor dan adran 62 o Fesur 2011 (dod â barn y cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu)”.

    6.3 Yn ogystal, o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid ystyried pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae’r corff yn ei gwasanaethu.

   Byddai mabwysiadu Protocol Siarad Cyhoeddus ar gyfer Sgriwtini yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at gyflawni'r amcanion statudol hyn.

7. Cyhoeddir y Protocol ar wefan y Cyngor a gellir ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol.

Manylion y Protocol:

8. Mae'r Protocol yn nodi:

8.1. Gall aelodau'r cyhoedd ofyn am gael siarad mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini os ydynt wedi cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Swyddog Sgriwtini o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Pwyllgor. Rhaid gwneud y cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol o wefan y Cyngor ac anogir cyflwyno ceisiadau'n electronig. Caiff geisiadau sylw yn y drefn y cânt eu derbyn. Bydd pawb sy'n gymwys i siarad yn cael ei hysbysu trwy e-bost neu trwy rif ffôn cyswllt.

8.2. Lle mae gan bob grŵp neu blaid safbwynt gwahanol ar eitem benodol cyfyngir ar nifer y siaradwyr fel mai dim ond un person o bob grŵp neu blaid fydd yn annerch y cyfarfod. Dim ond mewn achosion eithriadol y bydd y Cadeirydd yn caniatáu i ail / trydydd siaradwr sy'n rhannu'r un safbwynt siarad, a defnyddir y fath ddisgresiwn mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Sgriwtini a'r Swyddog Monitro.

8.3. Mae gan y cyhoedd hawl i siarad ar bob eitem ar y rhaglen ac eithrio'r canlynol: Ymddiheuriadau; Datganiadau o Ddiddordeb; Cofnodion; ac eitemau ar y Rhaglen y datganwyd nad ydynt i'w cyhoeddi (yn unol â'r Prawf Budd Cyhoeddus). Pan fydd y Pwyllgor Sgriwtini yn ystyried eitemau eithriedig, bydd y Cadeirydd yn gofyn i bob aelod o'r wasg a'r cyhoedd adael yr ystafell gyfarfod.

8.4. Nid yw'r hawl yn cynnwys yr hawl i ofyn unrhyw gwestiynau i unrhyw aelod o CSYM, swyddog y Cyngor, gwahoddedigion sydd wrth law neu unrhyw siaradwr arall.

8.5. Er mwyn i aelodau fedru rhoi sylw llawn i unrhyw bwyntiau a wneir, rhaid i siaradwyr ddarparu unrhyw wybodaeth / ddogfennau ategol y maent yn bwriadu cyfeirio atynt yn eu cyflwyniadau pan fônt yn cofrestru i siarad. Ni cheir cyflwyno unrhyw wybodaeth / dogfennau ychwanegol yn y cyfarfod ei hun. Mae'r Protocol drafft yn mynd i'r afael ag addasrwydd unrhyw ddeunydd a gynhyrchir.

8.6. Rhoddir pum munud i bob siaradwr wneud eu cyfraniad llafar mewn perthynas ag eitem ar y rhaglen. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y Cadeirydd yn caniatáu ychydig mwy o amser i siaradwyr ac os caniateir hyn ar gyfer un unigolyn, caniateir yr un faint o amser ychwanegol i bob unigolyn mewn perthynas â'r un eitem ar y rhaglen.

8.7. Mae gan y Cadeirydd ddisgresiwn i atal siaradwyr cyn i'r amser a neilltuwyd iddynt ddod i ben os ydynt, ym marn y Cadeirydd, yn ymddwyn yn amhriodol, yn

dramgwyddus, yn ceisio atal y Pwyllgor rhag gwneud ei waith neu'n gwneud sylwadau sy'n ddifenwol, yn flinderus, yn wahaniaethol neu'n sarhaus.

8.8. Gellir gofyn i siaradwyr egluro unrhyw un o'u sylwadau a gall yr aelodau ofyn cwestiynau iddynt. Ni chaniateir mynd i drafodaeth gydag aelodau'r Pwyllgor.

8.9. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y sylwadau a wnaed gan y siaradwr ac wedi hynny yn penderfynu a ddylid gwneud unrhyw argymhellion sy'n codi o'r sylwadau a wnaed / materion a godwyd.

Argymhellion:

9. Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn cytuno i fabwysiadu'r Protocol yn **Atodiad 1** i'r adroddiad hwn, ar yr amod bod y Cyngor yn ei gymeradwyo'n ffurfiol;

10. Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell a ddylid mabwysiadu'r Protocol yn **Atodiad 1** ai peidio ac, os cymeradwyir ei fabwysiadu, argymell ei gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor

11. Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Protocol ac yn cytuno y dylid diwygio'r Cyfansoddiad i gynnwys y Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini (fel y mae'n ymddangos yn **Atodiad 1)**

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Gall y Cyngor benderfynu cynnal y status quo h.y. siaradwyr cyhoeddus yn ôl disgresiwn y Cadeirydd heb unrhyw weithdrefn gyhoeddedig / ysgrifenedig. Fodd bynnag, bydd mabwysiadu Protocol Siarad Cyhoeddus ar gyfer Sgriwtini yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac yn rhoi arweiniad iddynt, gan alluogi ac annog y cyhoedd i ymgysylltu a chymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae paragraff 2.15.2.1 o'r Cyfansoddiad yn nodi "*Ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig.....*" |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Amherthnasol |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Nid oes unrhyw oblygiadau mewn perthynas â'r gyllideb |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Yn cefnogi |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Awdur yr Adroddiad |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Ymgynghorwyd ag aelodau'r Pwyllgorau Sgriwtini ar ddrafft cyntaf y Protocol. Mae eu sylwadau wedi eu cynnwys fel rhan o'r Protocol a / neu'r Adroddiad.<br><br>Mae adborth y Pwyllgorau Sgriwtini wedi ei gynnwys fel **Atodiad 2** i'r adroddiad. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Nid yw hwn yn fater sy'n ymwneud â ward benodol. |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 – Canllawiau ar Drefniadau Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini<br>Atodiad 2 – Adborth y Pwyllgorau Sgriwtini ar y Protocol drafft |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

**Arweiniad ar drefniadau Siarad Cyhoeddus mewn Cyfarfodydd o'r Pwyllgorau Sgriwtini**

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 O dan adran 62 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i Gynghorau Sir sicrhau bod y rheini sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal yn gallu cyfrannu eu safbwyntiau ar unrhyw fater sydd i gael ei ystyried gan Bwyllgor Sgriwtini. Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) wedi ymrwymo i'r egwyddor hon.

1.2 Mae CSYM yn annog cyfranogiad gweithredol gan y cyhoedd lle bynnag y mae hynny'n bosibl (gweler y ddolen i "Cymerwch ran yn Sgriwtini") ac mae cyfle'n bodoli i aelodau o'r cyhoedd siarad mewn Pwyllgorau Sgriwtini mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen. Bwriad yr Arweiniad hwn hyn yw sicrhau y bydd llais pobl a chymunedau lleol ar Ynys Môn yn cael eu clywed fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

1.3 Wrth wneud hyn, rhaid i CSYM sicrhau bod y weithdrefn yn deg ac yn drefnus. Mae'r arweiniad hwn wedi'i ddatblygu er mwyn cynorthwyo'r rhai hynny sy'n dymuno siarad mewn cyfarfod o Bwyllgor Sgriwtini. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y broses i'w dilyn. Gobeithir hefyd, drwy nodi'r wybodaeth hon, ac i'r graddau y mae hynny'n bosibl, y bydd modd i aelodau'r cyhoedd gael profiad di-straen wrth siarad mewn Pwyllgor Sgriwtini.

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae gan CSYM ddau Bwyllgor Sgriwtini. Y naill yw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r llall yw'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio. Mae Cylch Gorchwyl y ddau bwyllgor wedi eu cynnwys yn y Cyfansoddiad yn Erthygl 6 ac yn Rhan 4.

2.2 Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ydi gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith/Cyngor. Y Pwyllgor Gwaith/Cyngor, fel bo'n addas, sy'n gwneud y penderfyniad terfynol.

2.3 Mae cyfarfodydd o'r Pwyllgorau Sgriwtini ar agor i'r cyhoedd (gweler 2.4 isod).

2.4 Fodd bynnag, ar adegau, bydd y Pwyllgorau yn ystyried materion cyfrinachol e.e. gwybodaeth bersonol am unigolion neu ddata masnachol sensitif ac, ar yr adegau hyn, gofynnir i aelodau o'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra mae'r eitem yn cael ei hystyried. Rhaid i waharddiad o'r fath fod er budd y cyhoedd.

2.5 Bydd aelodau'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig ar faterion sy'n cael eu trafod gan Bwyllgorau Sgriwtini yn eu cyfarfodydd. Mae'r adroddiadau hyn ar gael i'r cyhoedd ar y wefan ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o leiaf tri diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod (oni bai bod penderfyniad yn cael ei wneud i eithrio'r cyhoedd rhag cael mynediad i'r papurau). Os mai dyna'r achos, bydd prawf budd y cyhoedd yn cael ei gynnwys ar y wefan; bydd hwn yn egluro pam mae mynediad yn cael ei gyfyngu.

2.6 Rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Sgriwtini yw "galw i mewn" benderfyniadau sydd wedi eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith ond sydd heb eu gweithredu eto. Fodd bynnag, bydd yr hawl i "alw i mewn" yn cael ei eithrio os ystyrir bod penderfyniad y

Pwyllgor Gwaith yn un brys. Yn yr amgylchiadau hynny, ni fydd yn bosibl i'r mater gael ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini ac felly ni fydd modd i'r cyhoedd gymryd rhan.

## 3.0 Presenoldeb y cyhoedd a siarad mewn Cyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgriwtini.

### 3.1 Pwyntiau Cyffredinol

3.1.1 Cynhelir cyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgriwtini yn gyhoeddus a gall unrhyw aelod o'r cyhoedd neu'r wasg fynychu a gwrando ar y sgwrs. Does dim angen gwneud unrhyw drefniadau o ran hyn; mae gennych hawl i droi fyny heb rybudd.

3.1.2 Does gan y cyhoedd ddim hawl awtomatig i siarad mewn Pwyllgor Sgriwtini ond gallant ofyn am ganiatâd i wneud hynny ymlaen llaw yn unol â'r Arweiniad hwn.

3.1.3 Trafodir rhai eitemau mewn sesiynau caeëdig, pan fydd y Pwyllgor yn ystyried gwybodaeth gyfrinachol a nodwyd fel gwybodaeth na ddylid ei chyhoeddi (yn amodol ar y prawf budd y cyhoedd a nodir yn 2.4 uchod). Gofynnir i'r wasg a'r cyhoedd adael yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau hyn. O ganlyniad, ni fydd unrhyw siarad cyhoeddus mewn perthynas â'r eitemau hyn.

3.1.4 Yn amlwg, ni fydd siarad cyhoeddus yn briodol ar eitemau agenda megis ymddiheuriadau am absenoldeb, datganiadau o ddiddordeb a chofnodion.

3.1.5 Nid yw'r hawl i siarad yn cynnwys yr hawl i ofyn cwestiynau i unrhyw aelod o CSYM, swyddogion y Cyngor, gwestai a wahoddwyd nac unrhyw siaradwr arall.

### 3.2 Camau angenrheidiol

3.2.1 Er mwyn cael siarad mewn cyfarfod o Bwyllgor Sgriwtini, rhaid i aelod o'r cyhoedd fod wedi cyflwyno **cais ysgrifenedig**, gan ddefnyddio'r ffurflen briodol, a'i hanfon at y Swyddog Sgriwtini. Ni fydd ceisiadau llafar i gael siarad yn cael ei cofrestru. Dylid defnyddio'r ffurflen ar y ddolen hon i wneud y cais ysgrifenedig a gellir cynnwys lluniau neu ddiagramau. Rhaid i gyfrannwr wneud hyn cyn gynted â phosibl **ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn dyddiad y Pwyllgor** (anogir pobl i gyflwyno eu ffurflenni yn electronig). Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y cyfnod hwn yn cael eu gwrthod yn awtomatig. Mae manylion cyswllt, ynghyd â chopi o'r ffurflen gais berthnasol ar gael ar wefan y Cyngor.

3.2.2 Caniateir i un person siarad o bob grŵp neu barti lle mae gan bob grŵp neu barti rywbeth gwahanol i'w ddweud mewn perthynas ag eitem. Gall unigolion sy'n arbenigwyr mewn maes penodol, neu sydd â safbwynt na chynrychiolir gan grŵp neu barti, hefyd gofrestru eu diddordeb i siarad yn y cyfarfod. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor ond yn caniatáu ail/trydydd siaradwr ac ati, sydd â'r un safbwynt, mewn achosion eithriadol a lle mae'n amlwg bod dadleuon gwahanol i'w clywed. Bydd hyn drwy ddisgresiwn y Cadeirydd ac mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Sgriwtini a'r Swyddog Monitro.

Er enghraifft, mewn perthynas ag adroddiad yn trafod nifer o wahanol ysgolion, mae'n rhesymol caniatáu un siaradwr o bob ysgol ond nid yw'n rhesymol gadael i bob rhiant wneud cyfraniad unigol. Lle byddai eitem yn trafod Canolfannau



DRAFT

Hamdden er enghraifft, byddai'n rhesymol gadael i siaradwyr o wahanol grwpiau sy'n defnyddio'r ganolfan hamdden siarad ar y sail bod ganddynt i gyd bethau gwahanol i'w ddweud ac na fyddent yn ail adrodd yr un pwyntiau. Y pwynt yw ceisio sicrhau bod y Pwyllgorau yn clywed yr holl safbwyntiau ond nad yw cyfraniadau yn ailadroddus.

3.2.3 Bydd yr holl geisiadau ysgrifenedig yn cael eu cofnodi gan Swyddog Sgriwtini y Cyngor. Bydd y cais yn cynnwys manylion am bwy mae'r unigolyn yn ei gynrychioli (os yn berthnasol). Pan fydd trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer y cyfarfod o'r Pwyllgor, bydd yr unigolyn y mae ei enw'n ymddangos gyntaf ar y rhestr h.y. y person cyntaf i gofrestru eu diddordeb mewn siarad yn y Pwyllgor, mewn perthynas a bob grŵp / parti o bobl, yn cael y cyfle cyntaf i gadarnhau a ydynt dal yn dymuno siarad. Os nad yw'r person cyntaf i gofrestru bellach yn dymuno siarad, cynigir i'r ail berson ar y rhestr a ydynt yn dymuno siarad a bydd lle y person cyntaf ar y rhestr yn cael ei ildio. Yn yr un modd, os nad yw'r ail berson ar y rhestr yn dymuno siarad, cynigir i'r trydydd person ar y rhestr, ac yn y blaen. Unwaith y cynigir i'r person nesaf ar y rhestr, a bod y person hwnnw'n cadarnhau y byddant yn mynychu i siarad, ni all yr unigolyn blaenorol newid eu meddwl am eu dymuniad i siarad. Bydd y cynnig ond yn mynd yn ôl i'r person cyntaf i gofrestru os yw pawb arall ar y rhestr wedi cadarnhau nad ydynt yn dymuno siarad. Yn amlwg, nid yw hyn yn berthnasol i'r cyfranwyr hynny nad ydynt yn cynrychioli grwpiau/partïon.

3.2.4 Fe ddylai'r rhai hynny sy'n dymuno siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgor gofrestru eu diddordeb i wneud hynny cyn gynted â phosibl drwy gadarnhau eu henwau a phwy maent yn gynrychioli, (os yn berthnasol) ac ni ddylid disgwyl i bapurau'r Pwyllgor gael eu cyhoeddi, er mwyn osgoi sefyllfa lle byddant yn methu'r dyddiad cau a nodir yn 3.2.1 uchod a/neu bod unigolion eraill eisoes wedi cofrestru i siarad. Bydd materion fel arfer yn rhan o ymgynghoriad ehangach ac felly bydd y cyhoedd yn ymwybodol o'r materion a fydd yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol, caiff unigolion eu hannog i adolygu Blaen Raglen Waith (BRW) y Pwyllgorau Sgriwtini sy'n nodi'r materion a fydd yn cael eu trafod.

3.2.5 Bydd y Swyddog Sgriwtini yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl i'r rhai hynny sydd wedi cofrestru i siarad yn y cyfarfod o'r Pwyllgor ac yn eu hysbysu o amser, dyddiad a lleoliad y cyfarfod lle bydd yr eitem yn cael ei thrafod. Cyhoeddir rhaglenni Pwyllgorau o leiaf tri diwrnod gwaith clir cyn y Pwyllgor a bydd y rhain yn cynnwys manylion yr holl faterion a drafodir yn y cyfarfod hwnnw.

### 3.3 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini

3.3.1 Fel y nodwyd, bydd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgriwtini yn cael eu cynnal yn gyhoeddus fel arfer, maent yn agored i'r wasg ac mae'r holl adroddiadau yn ddogfennau cyhoeddus oni bai eu bod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol.

3.3.2 Cyn dechrau'r cyfarfod, fe ddylai cyfranwyr gyflwyno eu hunain i'r Swyddog Sgriwtini neu'r Swyddog Pwyllgor a byddant yn trefnu iddynt gyfarfod y Cadeirydd. Fe ddylai siaradwyr cyhoeddus ganiatáu digon o amser i hyn ddigwydd ac anelu i gyrraedd Cyswllt Môn (Prif dderbynfa Pencadlys Llangefni) tua 15 munud cyn dechrau'r cyfarfod.

3.3.3 Gall siaradwyr gyfathrebu â'r Pwyllgor yn Gymraeg neu Saesneg (mae gwasanaeth cyfieithu ar gael ym mhob cyfarfod).

3.3.4 Mae'n bwysig bod unrhyw un sy'n siarad mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini yn gwneud hynny mewn modd cyfrifol a pharchus er mwyn sicrhau bod eu cyfraniad mor effeithiol â phosibl.

3.3.5 Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno pob siaradwr i'r Pwyllgor pan fydd eu tro nhw i siarad.

3.3.6 Gofynnir i bob siaradwr symud i leoliad penodol o fewn yr ystafell gyfarfod lle bydd modd iddynt gael eu gweld a'u clywed gan holl aelodau'r Pwyllgor. Rhoddir **pum munud** i bob siaradwr wneud eu cyfraniad.

3.3.7 Caiff siaradwyr eu hannog i ystyried y canlynol:

3.3.7.1 Sicrhau bod sylwadau yn glir ac yn gryno ac yn uniongyrchol berthnasol i'r adroddiad y maent wedi gofyn am gael siarad arno.

3.3.7.2 Osgoi ailadrodd unrhyw bwyntiau a wnaed gan siaradwr blaenorol.

3.3.7.3 Cyfyngu eu safbwyntiau i'r manteision a'r anfanteision o'r cynigion yn yr adroddiad a thynnu sylw at sut y gallai'r adroddiad effeithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer grwpiau penodol o ddefnyddwyr. Awgrymu cynigion gwahanol.

3.3.8 Ni chaniateir i siaradwyr ddosbarthu dogfennau cefnogol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini nac i ddefnyddio cymorth gweledol / llafar (megis lluniau, diagramau neu recordiadau sain). Bydd unrhyw ddeunydd a dderbynnir gan y siaradwr yn unol â pharagraff 3.2.1 yn cael ei gylchredeg gan y Swyddog Sgriwtini ymlaen llaw, i aelodau'r Pwyllgor; yn amodol ar y cafeat bod y deunydd yn addas ar gyfer ei gyhoeddi. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud yn unol â disgresiwn y Swyddog Sgriwtini mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r swyddog arweiniol o'r gwasanaeth perthnasol.

3.3.9 Os yw siaradwr yn dal i siarad ar ôl pum munud, bydd y Cadeirydd fel arfer yn gadael iddynt orffen y frawddeg ac yna'n eu hysbysu eu bod wedi cyrraedd y trothwy amser. Ni chaniateir i gyfranwyr fynd dros eu hamser a hynny er mwyn sicrhau tegwch i unrhyw siaradwyr eraill. <u>Mewn amgylchiadau eithriadol</u>, gall y Cadeirydd ganiatáu ychydig mwy o amser i siaradwyr; os digwydd hynny, bydd siaradwyr eraill ar yr un eitem yn cael yr un faint o amser ychwanegol i siarad.

3.3.10 Unwaith y bydd y siaradwr wedi gorffen eu cyfraniad, gall y Cadeirydd ganiatáu i aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau i'r siaradwr er mwyn cadarnhau unrhyw bwyntiau sy'n codi. Ni ddylai'r siaradwr fynd i ddadlau ag unrhyw aelodau o'r Pwyllgor.

3.3.11 Bydd y siaradwr wedyn yn dychwelyd i'w sedd yn y galeri gyhoeddus.

3.3.12 Bydd y Pwyllgor yn trafod y mater cyn gwneud unrhyw benderfyniad ac yn ystyried unrhyw wybodaeth a ddarperir gan yr holl siaradwyr.

3.3.13 Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod yr holl siaradwyr yn cael eu trin â chwrteisi a pharch. Bydd gan y Cadeirydd y disgresiwn i stopio siaradwr ar unrhyw adeg os yw, ym marn y Cadeirydd, yn siarad yn amhriodol, yn ymosodol neu os bydd yn ceisio



DRAFT

atal y Pwyllgor rhag gwneud ei waith neu'n gwneud sylwadau sy'n ddifrïol, yn flinderus, yn wahaniaethol neu'n dramgwyddus. Wrth lywyddu dros y cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn ymarfer ei ph/bwerau a dyletswyddau mewn ffordd weithredol, deg a diduedd fel bod modd cyflawni busnes yn effeithlon a chan gymryd i ystyriaeth budd y gymuned.

3.3.14 Gall y siaradwr adael y cyfarfod ar unrhyw adeg ar ôl siarad.

## 4.0 Diogelu Data

4.1 Mae manylion cyswllt, yn cynnwys cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn, yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir gweithredu'r Arweiniad hwn yn y modd cywir ac er mwyn galluogi siaradwyr i fynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgriwtini. Ni fydd manylion personol ond yn cael eu casglu at ddibenion gweinyddu siarad cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini. Unwaith y bydd eitem wedi'i phenderfynu arni mewn Pwyllgor, bydd y manylion cyswllt yn cael eu dileu yn unol â'r Polisi Cadw Gwybodaeth a gyhoeddwyd gan y Cyngor.

## 5.0 Crynodeb

**Fe ddylai unrhyw aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini:**

- **Adolygu'r Flaen Raglen Waith, sydd ar gael **YMA** er mwyn gweld pa faterion sydd ar y gweill;**
- **Cyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael **YMA**;**
- **Rhaid i'r cais ysgrifenedig gyrraedd y Swyddog Sgriwtini o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor;**
- **Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at yr unigolion a nodir yn adran 6 isod.**

## 6.0 Manylion Cyswllt

Swyddog Cymorth Sgriwtini 01248 75xxxx
abc@ynysmon.gov.uk

Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor 01248 75xxxx
def@ynysmon.gov.uk



DRAFT

**ATODIAD 2 – Adborth y Pwyllgorau Sgriwtini**

Aeth y Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini gerbron y ddau bwyllgor sgriwtini ar 9 Mawrth (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) ac 11 Mawrth (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio) ac isod mae crynodeb o sylwadau / argymhellion y ddau bwyllgor:

**Sylwadau'r Pwyllgorau Sgriwtini**

Nodwyd y pwyntiau canlynol yn arbennig:

- Pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fodolaeth y Protocol fel fframwaith i'w cefnogi i gyfrannu mewn cyfarfodydd o'r pwyllgorau sgriwtini
- Trafodaeth ynghylch y cyfyngiad 5 munud wrth i siaradwyr gyfrannu mewn cyfarfodydd pwyllgorau sgriwtini, yn enwedig ar bynciau strategol neu gymhleth
- Trafodwyd y bwriad i osod amserlen 3 diwrnod gwaith wrth i aelodau'r cyhoedd gyflwyno cais i siarad mewn cyfarfodydd o bwyllgorau sgriwtini y Cyngor. Nodwyd y byddai disgresiwn y cadeirydd ar waith ar gyfer unrhyw geisiadau na dderbyniwyd oddi mewn i'r amserlen a gyhoeddwyd, o fewn amgylchiadau arbennig.

**Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, 09/03/20**

Er bod mwyafrif y Pwyllgor yn gefnogol i'r Protocol fel y'i cyflwynwyd ac yn derbyn ei fod yn ceisio ffurfioli a darparu eglurder ar drefniadau siarad cyhoeddus ym Mhwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor, roedd gan rai Aelodau gonsyrn bod y Protocol arfaethedig yn gosod cyfyngiad gormodol ar aelodau'r cyhoedd o ran yr amser a roddir iddynt wneud cais a chyflwyno gwybodaeth ac i annerch y cyfarfod ac a allai felly ychwanegu at y pwysau ar unigolion a all fod yn nerfus ynghylch siarad yn gyhoeddus neu deimlo'n emosiynol am y mater yr oeddent yn dymuno siarad arno. Teimlai'r Aelodau rheiny fod y trefniadau anffuriol presennol o dan gyfarwyddyd y cadeirydd wedi gwasanaethu Sgriwtini hyd yma.

Ar ôl trafod y mater ac yn dilyn pleidlais arno, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno i'r Protocol Siarad Cyhoeddus yn Sgriwtini fel y'i cyflwynwyd a'i argymell i'r Pwyllgor Gwaith. (Pleidleisiodd y Cyng Aled Morris Jones, Lewis Davies a Bryan Owen yn erbyn).

**Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 11/03/20**

Yn sgil trafodaeth, fe benderfynwyd yn unfrydol:

Bod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn argymell i'r Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu'r Protocol Siarad Cyhoeddus ar yr amod bod y Cyngor yn ei gymeradwyo'n ffurfiol, ac ar yr amod bod disgwyliad yn y Protocol bod Cadeiryddion yn derbyn cyngor gan y Swyddog Sgriwtini a'r Swyddog Monitro cyn gwneud penderfyniad i ganiatáu siaradwr i gael siarad am fwy o amser na'r pum munud a nodir yn y Protocol.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i :** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 23 Mawrth 2020 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynnydd Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Aelodau Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Alwyn Rhys Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Fôn Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Rhif ffôn:<br>E-bost: | Emma Edwards<br>Dirprwy Reolwr Busnes, Gwasanaethau Oedolion<br>01248 751887<br>Emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl Aelodau |

**A –Argymhelliad a Rhesymau**

**ARGYMHELLIAD**

- **Cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**

**Cefndir - Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol**

Yn y Bwrdd Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar 22 Mai 2019 a'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar 23 Mai 2019, argymhellwyd sefydlu Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddai hyn yn golygu y gellid craffu ar y Gwasanaethau Oedolion i'r un graddau ag y gwnaed ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Byddai hefyd yn caniatáu i Aelodau Etholedig gael gwybodaeth fanylach am y prosesau a'r heriau yn y Gwasanaethau Oedolion. Argymhellir bod y panel sydd newydd ei gyfansoddi yn cychwyn ar ei waith yn syth.

Mae'r adroddiad hwn yn cefnogi cyfarfod cyntaf y Cyd-Banel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol.

1. **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Adolygiad o Berfformiad yr Awdurdod Lleol**

*(Gellir gweld copi llawn o'r llythyr yn Adran FF isod - 1)*

Derbyniodd y Cyngor ei lythyr Adolygu Perfformiad Blynyddol gan AGC ddiwedd mis Hydref 2019. Pwrpas y llythyr, a gyhoeddir o dan Gôd Ymarfer AGC yw:

- rhoi atborth ar weithgaredd arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd

yn ystod y flwyddyn;

- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud wrth weithredu argymhellion o arolygiadau a / neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi adolygiad AGC o berfformiad Cyngor Sir Ynys Môn wrth gyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (DGCLl) a'n dull o gefnogi gwelliant – dull sy'n gynyddol gydweithredol ac sy'n seiliedig ar gryfderau.

Y pedair egwyddor yw 1) Llesiant 2) Pobl - Llais a Dewis 3) Atal, a 4) Partneriaethau. Mae'r llythyr yn mynd i'r afael â phob un o'r penawdau ar draws y ddau Wasanaeth. Y negeseuon allweddol yw:

*a) Mae trefniadau dros dro ar waith ar gyfer rôl statudol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn y newidiadau diweddar ymhlith uwch-arweinwyr. Bydd arweinwyr y cyngor am sicrhau nad yw'r newidiadau mewn arweinyddiaeth yn cael effaith negyddol ar y gwelliannau diweddar ym mherfformiad y gwasanaethau plant.*
**DIWEDDARIAD:** Cwblhawyd ad-drefnu tîm Uwch Arweinyddiaeth Cyngor Sir Ynys Môn erbyn hyn, ac Alwyn Rhys Jones yw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar sail barhaol.

b) *Yr angen i gynnal y gwelliannau yn y gwasanaethau Plant*.
**DIWEDDARIAD:** Gweler Pwynt 2 isod os gwelwch yn dda sy'n egluro atborth gan AGC o'r gwaith monitro manwl ar ein Gwasanaethau Plant ym mis Medi 2019.

*c) Mae gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon.*
**DIWEDDARIAD:** Mae'r Gwasanaethau Oedolion yn gweithio i wneud gwelliannau yn y maes hwn ac wedi rhoi hyfforddiant i staff ym mis Tachwedd 2019.

ch) *Mae cael llety i blant ag anghenion cymhleth sydd angen derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn her y mae'r awdurdod lleol yn mynd i'r afael â hi fel mater corfforaethol. Mae cydweithwyr ym meysydd gofal cymdeithasol a thai yn gweithio'n agos gydag aelodau etholedig i gynnig cyfleoedd am lety byw ar Ynys Môn i blant sy'n gymwys i gael cymorth.*
**DIWEDDARIAD:** Er mwyn hyrwyddo dad-sefydliadu a lleihau gorwariant sylweddol a chaniatáu i'r plant a'r bobl ifanc sy'n dod o Ynys Môn barhau i dderbyn gofal ar yr Ynys, mae angen ystod o ddarpariaethau gofal amgen. Ar hyn o bryd mae nifer o blant yn byw "y tu allan i'r sir" sy'n annhebygol o gael eu hailintegreiddio neu eu lleoli gyda theulu, ffrindiau, teuluoedd maeth neu deuluoedd mabwysiadu yn y dyfodol rhagweladwy. Er mwyn sicrhau nad yw'r

plant hyn yn cael eu 'gadael ar ôl', ac i wneud arbedion sylweddol, mae angen datblygu gwasanaethau gofal preswyl amgen.

Mae Cartrefi Clyd Môn yn golygu dim mwy na dau o blant yn byw gyda'i gilydd mewn amgylchedd 'cartrefol' ac yn gweithredu mewn ffordd debyg i blant sy'n byw gartref h.y. mynd i'r ysgol, byw yn y gymuned, cael cymdogion a ffrindiau ac ati.

Bydd y tai wedi'u gwasgaru ledled y gymuned sy'n golygu y gall y plant sy'n byw ynddynt ymdoddi'n haws i'w cymunedau. Bydd tîm bach o weithwyr gofal preswyl yn gweithio ym mhob cartref, gan sicrhau parhad gofal i'r plant sy'n byw yno. Ar hyn o bryd mae 2 Gartref Clyd yn cael eu cofrestru gan AGC a bwriedir y bydd y ddau ohonynt yn agor erbyn 1 Ebrill 2020.

Mae'r llythyr hefyd yn crynhoi Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019-20 (rhaglen arolygu thematig), a oedd yn cynnwys gwaith ataliol a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn sydd bellach wedi ei gwblhau.

Mae hefyd yn cyfeirio at archwiliad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant y trefnwyd i'w gynnal fel cynllun peilot ar ddiwedd 2019. Nid ydym wedi derbyn unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â hyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

2. **AGC – Llythyr gydag atborth ar 2 ddiwrnod o waith monitro yn y Gwasanaethau Plant yng Nghyngor Sir Ynys Môn**
   (dyddiedig 25/10/19)

*(Gellir gweld copi llawn o'r llythyr yn Adran FF isod - 2)*

Ar 19 a 20 Medi 2019 gwerthuswyd 13 o ffeiliau achos, a chynhaliwyd cyfweliadau â phum rheolwr tîm Gweithredol a dau Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA). Unwaith eto, y pedair egwyddor (Llesiant, Pobl - Llais a Dewis, Atal a Phartneriaethau) oedd sylfaen y gwaith monitro a'r llythyr.

Dywed y llythyr " *Mae ein canfyddiadau'n dangos gwasanaeth sydd ar daith gadarnhaol tuag at wella a gaiff ei hategu gan arweinwyr a rheolwyr sy'n cymryd cyfrifoldeb am lywio gwelliannau. Rydym yn amlygu rhai darnau da o waith a meysydd y mae angen eu gwella."*

Meysydd i'w gwella:

*a)* "*Bydd yr awdurdod lleol eisiau parhau i greu cyfleoedd i gynorthwyo plant i aros yn eu cymunedau eu hunain a lleihau lleoliadau cost uchel y tu allan i'r sir. "*
**DIWEDDARIAD**: gweler y Cartrefi Grwpiau Bach - Cartrefi Clyd uchod (1ch).

b) *"Mae gan Swyddogion Adolygu Annibynnol rôl allweddol i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed a bod ansawdd gwasanaethau'n cael ei gyflawni a'i gynnal. Bydd yr awdurdod lleol am fanteisio i'r eithaf ar botensial rôl y Swyddog Adolygu*

*Annibynnol "*

**DIWEDDARIAD**: Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau y clywir llais pob plentyn. Cysylltir y gwaith hwn â'r diweddariad isod gan ar Diweddariad Voices From Care Cymru.

c) *"Bydd yr awdurdod lleol am sicrhau ei hun ei fod yn manteisio i'r eithaf ar bob cyfle i fynd i'r afael â'r rhesymau y mae mwy a mwy o weithwyr cymdeithasol yn gwrthod gwneud gwaith llys"*

**DIWEDDARIAD:** Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Teulu Lleol, a noddir gan Lywodraeth Cymru yn cynnal gweithdy ym mis Rhagfyr 2019 er mwyn edrych ar hyn. Mae hwn yn fater cenedlaethol ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Farnwriaeth er mwyn mynd i'r afael â hyn.

ch) *"Gwelsom dystiolaeth mewn un ffeil achos o'r manteision i'r plentyn o gael gwasanaethau cymdeithasol a thimau iechyd meddwl plant yn cydweithio'n agos. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad dyma'r sefyllfa bob amser. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod y risg y bydd plant yn cwympo drwy'r bwlch rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant a gwasanaethau cymdeithasol plant yn uchel. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r heriau, gan ddefnyddio arian 'Trawsnewid'.*

**DIWEDDARIAD:** Mae gwaith rhanbarthol yn cael ei wneud er mwyn edrych ar y ffordd orau i asiantaethau gefnogi plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl. Hefyd, gwnaed cais rhanbarthol am arian o'r Gronfa Gofal Canolraddol gyda'r nod o fynd i'r afael â rhai materion yn y maes hwn.

**3. Diweddariad gan Voices from Care Cymru**

'Roedd llythyr Adolygu Perfformiad AGC yn cyfeirio at y ffaith bod "*Uwch Reolwyr yn ymwybodol bod mwy o waith i'w wneud i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau".* O ganlyniad rydym yn falch o allu diweddaru'r Panel ar y cynnydd a wnaed trwy weithio gyda Voices from Care Cymru:

'Rydym wedi sefydlu prosiect gyda Voices From Care i sefydlu grŵp cyfranogi ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn Ynys Môn. Mae 3 elfen i'r prosiect;

- Datblygu grŵp cyfranogi,
- Ymgyrch leol a arweinir gan bobl ifanc,
- Cymorth rhianta corfforaethol.

Asiantaeth wirfoddol Cymru gyfan yw Voices From Care Cymru ac mae'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal er mwyn hyrwyddo eu hawliau a gwella'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer. Rydym wedi cytuno i sefydlu dull wedi'i dargedu wrth sefydlu grŵp cyfranogi misol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 14-22 oed. Pwrpas y grŵp cyfranogi yw cefnogi Ynys Môn i ddatblygu strategaeth ar gyfer

‘Plant sy’n Derbyn Gofal a Gadawyr Gofal’, gan ddarparu platfform sy’n cefnogi meithrin perthynas rhwng plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal a’u rhieni corfforaethol yn Ynys Môn. Byddai'r grŵp yn datblygu ei hunaniaeth ei hun ac yn cydgynhyrchu ystod o ddeunydd hyrwyddo a marchnata ac yn datblygu cyfres o adnoddau ac ymgyrchoedd lleol, sy'n unigryw i Ynys Mon. Fel sefydliad mae Voices From Care Cymru wedi penodi gweithiwr prosiect a leolir gyda staff y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac a fydd yn cynnig cyngor a chefnogaeth fel ‘ffrind beirniadol’ ynghylch materion cyfranogi a rhianta corfforaethol. Mae'r prosiect hwn yn ganlyniad uniongyrchol i gyllid a ddarparwyd ar y cyd gan wasanaethau yn yr Awdurdod Lleol - Gwasanaethau Plant, Tai ac Addysg - gyda'r nod o wrando ar leisiau plant sy'n derbyn gofal gennym er mwyn cryfhau ein cyfrifoldebau rhianta tuag atynt.

**4. Diweddariad Sicrwydd Ansawdd**

Fel rhan o'r rhaglen wella bu ffocws dwys ar gryfhau gwaith gwella ansawdd yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. O ganlyniad i'r gwaith hwn, sefydlwyd Uned Diogelu a Gwella. Rhoddwyd cryn sylw i ddatblygu datganiadau clir ynghylch y fethodoleg sy'n sail i waith yr Uned ac i'w threfniadau ar gyfer adrodd yn systematig a chyda thystiolaeth dda ar ei chanfyddiadau a'i hargymhellion ar gyfer gwella rheolaeth a darpariaeth gwasanaethau.

Mae gweithrediad y Fframwaith Gwella Ansawdd wedi bod yn cyflymu, ac mae'r Uned wedi gallu adrodd gyda ffocws cynyddol ar ei chanfyddiadau, gan ddwyn sylw at feysydd y dylid eu targedu ar gyfer gwaith gwella. Datblygwyd protocol drafft sy'n nodi'r berthynas rhwng gwaith yr Uned ac ymateb rheolwyr gwasanaeth gweithredol. Mae hyn yn dangos sut y byddai unrhyw ymatebion i wendidau a nodwyd neu argymhellion ar gyfer gwelliannau’n cael eu gweithredu gan reolwyr a sut yr adroddid arnynt i Uwch Reolwyr ac Aelodau. Trwy wneud hyn, mae’r Cylch Gwella yn cael ei gryfhau ac mae gwaith yr Uned wrth wraidd gweithrediad y gwasanaeth.

Adroddiad Anwen Huws - QA.docx

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

| |
|---|
| Amherthnasol |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r gwasanaeth angen cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith ei fod yn fodlon gyda chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**<br><br>(mandadol) | 10 Chwefror 2020 |
| 2 | **Cyllid / Adran 151**<br><br>(mandadol) | Fel uchod |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br><br>(mandadol) | Fel uchod |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| 7 | **Caffael** | Amherthnasol |
| 8 | **Sgriwtini** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 9 Mawrth, 2020. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Amherthnasol. |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | Amherthnasol. |
| 2 | **Gwrthdlodi** | Amherthnasol. |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | Amherthnasol. |
| 4 | **Amgylcheddol** | Amherthnasol. |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol. |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol. |
| 7 | **Arall** | Amherthnasol. |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Local authority annual performance Llythyr adolygu perfformiad blynydc |

| | |
|---|---|
| Anglesey letter - ENG - 20191025.pdf | Anglesey Letter - CYM - 20191025.pdf |

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Gorchymyn Pryniant Gorfodol ar gyfer yr hen Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol, Steeple Lane, Biwmares, Ynys Môn / Proposed Compulsory Purchase Order of the former Sport and Social Club, Steeple Lane, Beaumaris, Anglesey**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) 14<br><br>Paragraph(s) 14 | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Budd y cyhoedd wrth beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
| Mae yna fudd i'r cyhoedd mewn tryloywder am wariant awdurdodau lleol, yn enwedig mewn perthynas â thai fforddiadwy.<br><br>There is a public interest in transparency about local authority spending, especially with regard to the provision of affordable housing. | Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am faterion ariannol gyda busnes penodol ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy. Mae datgelu'r wybodaeth hon yn debygol o amharu ar allu'r Cyngor i ymgymryd â busnes gyda phartneriaid masnachol mewn ffordd a fyddai'n andwyol i fuddiannau masnachol y Cyngor.<br><br>This report contains details regarding financial matters with a specific business for building new affordable housing. Disclosure of this information is likely to prejudice the ability of the Council to undertake business with commercial partners in a way that would be detrimental to the commercial interests of the Council. |

**Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. [* - dilëwch y geiriau amherthnasol]
**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. [* - delete as appropriate]

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank